Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed

Mai 2008

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Sail dystiolaeth yr adroddiad** | **4** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Safonau mewn Cymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3** | **10** |
| **Cynllunio'r cwricwlwm** | **14** |
| **Ansawdd yr addysgu a'r asesu** | **16** |
| **Bodloni anghenion disgyblion** | **22** |
| **Llyfrgelloedd ysgol a chanolfannau adnoddau dysgu** | **27** |
| **Pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3** | **28** |
| **Rheolaeth ac arweinyddiaeth** | **30** |
| **Atodiad 1 Astudiaethau achos sy'n dangos enghreifftiau o arfer orau wrth wella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3** | |
| **Atodiad 2 Cwestiynau i arweinwyr a rheolwyr eu defnyddio wrth adolygu a gwella arfer** | |
| **Atodiad 3 Safonau cyflawniad mewn Cymraeg a Saesneg** | |

## Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi cyngor mewn ymateb i gylch gwaith Gweinidogol blynyddol Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth mewn Cymraeg a Saesneg fel pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'n arfarnu arfer ym meysydd allweddol dysgu ac addysgu Cymraeg a Saesneg. Mae Atodiad 1 yn darparu astudiaethau achos arfer orau mewn meysydd allweddol.

2 Mae'r adroddiad hefyd yn arfarnu arfer wrth ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Ar hyn o bryd, defnyddir nifer o dermau gwahanol i ddisgrifio'r medrau hyn, gan gynnwys medrau allweddol a sylfaenol. Mae Gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Medrau anstatudol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 19 oed yn cyfeirio at ddarllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm fel medrau cyfathrebu. O ran eglurder a chysondeb, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at fedrau cyfathrebu yn yr un ffordd.

3 Er bod llawer o ysgolion wedi llwyddo i wella safon Cymraeg a Saesneg disgyblion, yr her yw lledaenu arfer orau yn ehangach ac yn fwy cyson er mwyn sicrhau bod dysgu ac addysgu medrau darllen ac ysgrifennu ym mhob ysgol ledled Cymru cystal ag y gallant fod. Mae'r cwestiynau yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn wedi'u cynllunio i helpu ysgolion i adolygu meysydd o'u gwaith mewn Cymraeg a Saesneg, er mwyn ysgogi gwelliant ymhellach.

4 Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu yn bennaf ar gyfer staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd; athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu sy'n ymwneud ag addysgu darllen ac ysgrifennu; uwch reolwyr mewn ysgolion; ac ymgynghorwyr awdurdod addysg lleol (AALl). Gallai'r adroddiad hefyd fod o ddiddordeb i sefydliadau sy'n hyfforddi athrawon, awdurdodau esgobaethol eglwysi, cyrff cenedlaethol yng Nghymru ac eraill sydd â diddordeb mewn addysg.

## Cefndir

5 Mae darllen ac ysgrifennu yn ganolog i ddysgu disgyblion. Mae'r medrau hyn yn hanfodol ar gyfer cyflawniad addysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae angen i ysgolion adeiladu ar y medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y mae disgyblion yn eu datblygu yng nghyfnod allweddol 1. Mae ymestyn darllen ac ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 3 yn ganolog i gyflawniad addysgol a gwireddiad personol. Mae llwyddo mewn darllen ac ysgrifennu yn allweddol i ragolygon cyflogaeth disgyblion ac i ddyfodol Cymru fel gwlad sy'n dysgu.

6 Ym mis Medi 2001, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Y Wlad sy'n Dysgu fel rhaglen strategol ar gyfer addysg yng Nghymru hyd at 2010. Dilynwyd yr adroddiad hwn gan Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith chwe blynedd yn ddiweddarach. Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau hyn yn amlinellu'r modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn llwyddo mewn addysg yng Nghymru. Maent yn nodi targedau heriol ar gyfer disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 fel a ganlyn:

- 80% o blant 11 oed i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC) (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno); a

- 65% o blant 14 oed i gyflawni'r DPC.

7 Mae medrau cyfathrebu da yn cefnogi pob agwedd ar ddysgu ar draws y cwricwlwm. Yn benodol, mae'r medrau hyn yn hynod berthnasol i:

- ddisgyblion sydd dan anfantais; ac

- ysgolion y mae canlyniadau eu disgyblion islaw'r lefelau y gellir eu disgwyl ganddynt[1].

8 Mae'r adroddiad hefyd wedi'i osod yng nghyd-destun gwella'r trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Arweiniad ar baratoi Cynlluniau Trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae'r cynlluniau hyn wedi bod ar waith er mis Medi 2007. Nod y cynlluniau yw gwella parhad wrth gyflwyno'r cwricwlwm ac alinio arfer ystafell ddosbarth blwyddyn 6 a 7 yn well, gan gynnwys addysgu medrau llythrennedd. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu arfer dda mewn mentrau i wella trosglwyddo.

9 Yng Nghymru, yn unol â rhannau eraill o'r DU a lleoedd eraill, mae gwahaniaethau mawr yng nghyflawniadau bechgyn a merched. Mewn Cymraeg a Saesneg, mae hyn yn amlwg o gyfnod allweddol 1 ymlaen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bechgyn tua 10 pwynt canran y tu ôl i ferched yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg a Saesneg[2]. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae bechgyn tua 16 pwynt canran y tu ôl i ferched yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg a

[1] Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith 2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru
[2] Canlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007

Saesneg[3]. Ac eithrio Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2, mewn ysgrifennu y mae'r bwlch ehangaf o ran rhyw.

10 Wrth i ddisgyblion fynd yn eu blaenau o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mae'r angen am fedrau darllen ac ysgrifennu da yn cynyddu. Cydnabyddir bod medrau llai datblygedig bechgyn yn y meysydd hyn yn un o'r ffactorau cyfrannol sy'n arwain at y bwlch ehangach rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y cyfnod hwn. Mae cael darllen ac ysgrifennu yn gywir ar ddechrau addysg disgyblion ac adeiladu'n effeithiol ar y dysgu hwn yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, felly yn hanfodol i lwyddiant addysgol bechgyn yn y tymor hir.

11 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar gyhoeddiadau eraill Estyn, gan gynnwys:

- Anelu at Ragoriaeth yng nghyfnod allweddol 3, Estyn/ACCAC/LICC (2002, ailargraffwyd ac ailgyhoeddwyd, 2004);
- Pontio'r Bwlch, Datblygu a defnyddio unedau pontio i gefnogi trosglwyddo effeithiol o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, Estyn/ACCAC/LICC (2004);
- Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion, Estyn (2008);
- Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar, Estyn (2007);
- Symud Ymlaen…Trosglwyddo Effeithiol o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, Estyn (2004);
- Symud Ymlaen…Gwella Dysgu, Estyn, (2004);
- Codi Safonau mewn Llythrennedd a Rhifedd, Estyn/ACCAC/LICC (2003);
- Codi safonau darllen mewn Ysgolion Cynradd, Papur Trafod Estyn (1999);
- Codi safonau sillafu mewn Saesneg mewn Ysgolion Cynradd, Papur Trafod Estyn (2001);
- Codi safonau ysgrifennu mewn Ysgolion Cynradd, Papur Trafod Estyn (2000); a
- Throsglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, Estyn, ACCAC, LICC (2004).

[3] Canlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

12 Mae’r canfyddiadau a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- dadansoddiad o ganlyniadau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd a arolygwyd yn ystod 2004-2007;
- dadansoddiad o ganlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg a Saesneg ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd;
- arsylwadau o addysgu llythrennedd mewn 24 o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg;
- gwybodaeth a gafwyd o gyfweliadau â staff mewn 24 o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg;
- gwybodaeth a gafwyd o gyfweliadau gydag ymgynghorwyr llythrennedd o chwech AALlau;
- archwilio dogfennaeth a ddarparwyd gan ysgolion ac AALlau; ac
- ymchwil a llenyddiaeth ddiweddar am addysgu darllen ac ysgrifennu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau darllen ac ysgrifennu

13 Mae safonau mewn Cymraeg fel iaith gyntaf a Saesneg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru wedi gwella er 2000. Mae'r gwelliant mwyaf wedi bod yng nghyfnod allweddol 2, mewn Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwella ym mhob cyfnod allweddol wedi arafu er 2004. Roedd y safonau uchaf mewn Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 yn 2003.

14 Dros gyfnod o sawl blwyddyn, mae disgyblion wedi cyrraedd safonau uwch mewn darllen nag ysgrifennu yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae llawer llai o waith da a rhagorol mewn ysgrifennu na mewn darllen yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r bwlch rhwng safonau mewn darllen ac ysgrifennu, sy'n amlwg yng nghyfnod allweddol 1, yn cynyddu'n gyflymach yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

15 Mae merched yn cyrraedd safonau uwch na bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg ac mewn pynciau eraill yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r sefyllfa hon yn debyg i'r hyn a welir mewn rhannau eraill o'r DU. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cynyddu, gyda'r bwlch ehangaf mewn ysgrifennu.

16 Mae camgymeriadau mewn sillafu, atalnodi neu ramadeg yn aml yn amharu ar gynnwys gwaith ysgrifennu llawer o ddisgyblion o bob gallu. Nid yw lleiafrif o ysgolion cynradd a llawer o ysgolion uwchradd yn rhoi digon o sylw cyson i gywirdeb mewn gwaith ysgrifenedig.

### Cynllunio'r cwricwlwm

17 Mae cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer addysgu Cymraeg a Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 wedi gwella'n sylweddol er 2000 mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae gan lawer o ysgolion gynlluniau manylach a mwy cydlynus sy'n canolbwyntio ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau y dylai disgyblion eu datblygu.

18 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae diffygion wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cymraeg a Saesneg yn rhwystro'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Nid yw'r gwaith yn ysgogol nac yn cyfateb yn ddigon da i anghenion dysgu disgyblion ac nid yw'n rhoi digon o ystyriaeth i'r medrau y mae disgyblion yn eu dysgu ym mhob grŵp blwyddyn a chyfnod. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, nid yw'r cynllunio yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion dysgu penodol disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn rhugl.

19 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i destunau llenyddol, ffuglen yn benodol, ar draul deunydd nad yw'n llenyddol, yn enwedig yng nghwricwlwm iaith cyfnod allweddol 3.

20 Mae lleiafrif cynyddol o ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r cwricwlwm cyfan yn effeithiol iawn i gyfrannu mewn modd systematig i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Fodd bynnag, mewn tua thraean o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, nid yw'r gwaith i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi datblygu digon o hyd. Collir cyfleoedd i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion wrth iddynt astudio pynciau eraill.

**Addysgu ac asesu**

21 Mae ansawdd yr addysgu mewn Cymraeg a Saesneg wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae llawer o wersi yn cynnwys addysgu medrus o ran darllen ac ysgrifennu ac mae staff yn annog agweddau cadarnhaol at iaith a llythrennedd trwy eu brwdfrydedd eu hunain dros Gymraeg a Saesneg. Mae diffygion pwysig mewn addysgu yn cynnwys methu ystyried rhyngberthynas gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu a diffyg sylw agos i wella ansawdd a chywirdeb ysgrifennu disgyblion.

22 Mae ansawdd asesu darllen ac ysgrifennu wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda llawer o ysgolion yn defnyddio ystod o ddata perfformiad i olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, dim ond ychydig ysgolion sy'n gosod targedau ar wahân ar gyfer darllen ac ysgrifennu hyd yn oed pan fydd disgyblion yn gweithio ar wahanol lefelau yn yr agweddau hyn. Nifer fach iawn o ysgolion sy'n defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio gwelliannau mewn ysgrifennu i'r un graddau ag y maent yn defnyddio gwybodaeth asesu i wella darllen.

23 Mae ansawdd marcio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwella ar y cyfan. Fodd bynnag, mae gormod o farcio gwael o hyd sy'n cyfeirio at raddau ymdrech yn unig neu'n nodi gwendidau heb esbonio'r modd y gall disgyblion wella eu gwaith.

**Bodloni anghenion disgyblion**

24 Mae llawer o ysgolion yn gynyddol ymwybodol o grwpiau o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig oherwydd eu bod yn olrhain cynnydd disgyblion yn fwy systematig ac yn dadansoddi data yn fanylach nag o'r blaen. Mae llawer o ysgolion yn rhoi cymorth da i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig a Saesneg fel iaith ychwanegol i'w helpu â'u medrau llythrennedd. Mae trefniadau i helpu'r disgyblion hyn i wella eu medrau llythrennedd yn well mewn ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd yn gyffredinol.

25 Dim ond ychydig ysgolion sydd wedi llwyddo i leihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched. Mae'r ysgolion hyn wedi rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion a diddordebau bechgyn ac wedi sicrhau bod dysgu ac addysgu cystal ag y gallant fod yn unol â'r arfer orau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

26 Mae mwyafrif y rhaglenni cymorth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn helpu disgyblion i wella eu darllen a'u sillafu. Mae rhai o'r rhaglenni ymyriad mwyaf llwyddiannus yn cynnwys y rheiny sy'n cael eu hariannu a'u cefnogi gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r awdurdod lleol. Er gwaethaf y cymorth hwn, mae disgyblion llai abl, yn enwedig bechgyn, yn aml yn gwneud cynnydd araf yn eu dysgu oherwydd eu medrau llythrennedd gwael, yn enwedig mewn ysgrifennu. Mae llai o raglenni cymorth i helpu disgyblion i wella eu medrau

ysgrifennu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3. Byddai llawer o ddisgyblion llai abl mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn elwa ar gael mwy o gymorth ag ysgrifennu, yn enwedig wrth iddynt fynd yn hŷn ac wrth i dasgau ysgrifennu fynd yn fwy cymhleth.

27 Er bod mwy a mwy o ysgolion yn cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus, lleiafrif bach yn unig o ysgolion sy'n darparu tasgau darllen ac ysgrifennu ar gyfer y disgyblion hyn sy'n eu hymestyn a'u herio. Mae rhai ysgolion yn gwneud trefniadau ychwanegol da iawn ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus er mwyn rhoi mwy o ysgogiad a chymhelliant iddynt gyflawni rhagoriaeth.

**Trosglwyddo**

28 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwella eu trefniadau trosglwyddo i alluogi disgyblion i symud yn fwy didrafferth o un sector addysg i sector arall. Fodd bynnag, lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynllunio cynlluniau gwaith cyffredin yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer disgyblion 7-14 oed, i wneud yn siŵr bod yr addysgu bob tro yn cael ei anelu at y lefel gywir a bod y gwaith yn flaengar ac yn heriol. Mewn llawer o ysgolion, nid yw gwybodaeth am gyflawniadau blaenorol disgyblion a'u hanghenion dysgu mewn darllen ac ysgrifennu yn llywio'r addysgu.

29 Ar draws llawer o ysgolion uwchradd, mae rhagdybiaethau ffug o hyd am gymhwysedd ac annibyniaeth disgyblion wrth ddarllen ac ysgrifennu erbyn iddynt symud i ysgolion uwchradd. Mewn lleiafrif bach o ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn cael gormod o brofion ym Mlwyddyn 7 i ganfod gwybodaeth sydd fel arfer yn bodoli eisoes yn eu hysgol flaenorol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

30 Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mae hyn wedi arwain at welliannau mewn llythrennedd. Mae bron pob ysgol wedi canolbwyntio mwy ar wella safonau darllen disgyblion ond mae wedi rhoi llai o sylw i wella ysgrifennu. Nid yw strategaethau llythrennedd wedi cael cymaint o effaith ar safonau mewn llawer o ysgolion uwchradd ag a gawsant yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd.

31 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau addysg lleol yn rhoi cymorth da i ysgolion ar ddarllen sy'n adeiladu ar ddatblygiad medrau darllen cynnar. Mae llai o gymorth yn aml ar gyfer ysgrifennu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3 a phan fydd disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Nid oes digon o awdurdodau yn dadansoddi data penodol ar gyfer darllen ac ysgrifennu, nac yn ddigon manwl, i nodi'r ysgolion y mae angen eu gwella fwyaf mewn agweddau allweddol ar lythrennedd a grwpiau o ddisgyblion sydd fwyaf mewn perygl o dangyflawni, gan gynnwys disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion a rhai dysgwyr lleiafrifoedd ethnig.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Edrych ar Atodiad 2 a'i ddefnyddio i adolygu a gwella arfer wrth ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu.

A2 Parhau i godi safonau mewn Cymraeg a Saesneg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, trwy:

- osod strategaethau clir sy'n gwella medrau llythrennedd disgyblion;
- rhoi mwy o sylw i wella ysgrifennu disgyblion; a
- chanolbwyntio cymorth ar y grwpiau o ddisgyblion a'r unigolion sy'n gwneud y cynnydd lleiaf wrth ddatblygu eu medrau darllen neu ysgrifennu.

A3 Gwella cynllunio'r cwricwlwm i sicrhau bod:

- cydbwysedd yn ystod y testunau llenyddol a'r testunau nad ydynt yn llenyddol y mae disgyblion yn eu darllen ac yn eu hysgrifennu; a
- bod yr addysgu ar draws y cwricwlwm cyfan yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn fwy effeithiol.

A4 Gwella addysgu ac asesu ymhellach trwy:

- roi sylw agosach i gynnwys, mynegiant a chywirdeb wrth ddarllen ac ysgrifennu;
- sicrhau bod marcio, gan gynnwys asesiadau'r disgyblion eu hunain, yn defnyddio meini prawf er mwyn i'r disgyblion wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y dylent ei wneud i wella eu gwaith; a
- gosod targedau ar wahân i ddisgyblion eu cyflawni wrth ddarllen ac ysgrifennu ac olrhain cynnydd disgyblion tuag at eu cyrraedd.

A5 Bodloni anghenion pob disgybl trwy:

- ymyrryd mor gynnar ag y bo modd i helpu disgyblion sy'n cael problemau â darllen neu ysgrifennu;
- defnyddio'r strategaethau addysgu mwyaf effeithiol i ennyn diddordeb pob disgybl, yn enwedig bechgyn; a
- sicrhau bod y disgyblion mwy abl a dawnus yn cael tasgau ysgrifenedig heriol a'u bod yn darllen yn eang ac yn uchelgeisiol.

A6 Parhau i wella'r trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 trwy:

- gynllunio cynlluniau gwaith yn Gymraeg ac yn Saesneg sy'n darparu dilyniant ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3;
- gwneud defnydd gwell o wybodaeth am gyflawniadau disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo i'r sector uwchradd; a
- sicrhau bod gwaith yng nghyfnod allweddol 3 yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol o safonau darllen ac ysgrifennu disgyblion ym Mlwyddyn 6.

A7 Rhoi blaenoriaeth uchel i ddarllen ac ysgrifennu trwy:

- roi cyfrifoldeb dynodedig i uwch reolwr am wella safonau llythrennedd;
- cael strategaeth ddatblygedig i ddatblygu medrau llythrennedd ar draws yr ysgol, (mae hon yn flaenoriaeth ar gyfer cyfnod allweddol 3 yn arbennig);
- targedu mentrau ar gyfer gwella'r agweddau gwannach ar lythrennedd sy'n amlwg yn yr ysgol; ac
- adolygu darpariaeth a safonau llythrennedd yn unol â'r arfer orau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Dylai awdurdodau addysg lleol:**

A8 gael strategaeth llythrennedd datblygedig ar gyfer yr awdurdod cyfan, sy'n nodi'r camau i wella safonau darllen ac ysgrifennu yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 yn eglur, ac yn cynnwys ffocws ar y materion a godwyd yn yr argymhellion a nodwyd uchod.

**Dylai darparwyr addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon:**

A9 nodi cynnwys yr adroddiad hwn i lywio'r broses o hyfforddi athrawon newydd.

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A10 gasglu a chyhoeddi data ar safonau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 er mwyn galluogi monitro cynnydd;


A11 parhau i drefnu bod adnoddau ar gael yn y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer awdurdodau lleol sy'n gweithio gydag ysgolion i wella medrau darllen ac ysgrifennu, gyda ffocws penodol ar ysgrifennu a chyfnod allweddol 3; a

A12 chomisiynu arweiniad manwl ar arfer dda wrth addysgu ysgrifennu.

## Safonau mewn Cymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3


32 Er 2000, mae canlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a thystiolaeth arolygu yn dangos bod safonau Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru wedi codi yn gyffredinol. Mae'r gwelliant mwyaf wedi bod yng nghyfnod allweddol 2, lle mae safonau wedi gwella tua 10 pwynt canran yn ystod y cyfnod hwn. Mae Tablau 1 a 2 isod yn dangos y safonau a gyflawnodd disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg yn 2000 o'i gymharu â 2007.

**Tabl 1: Safonau mewn Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3**




* Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer cyfnod allweddol 2 yw lefel 4 a lefel 5 ar gyfer cyfnod allweddol 3

**Tabl 2: Safonau mewn Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3**




* Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer cyfnod allweddol 2 yw lefel 4 a lefel 5 ar gyfer cyfnod allweddol 3

33 Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae cyfradd y cynnydd yn y ddau gyfnod allweddol wedi arafu er 2004. Yn ogystal, yn 2007, roedd safonau mewn Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 islaw'r lefelau a gyrhaeddwyd yn 2003. Mae rhagor o wybodaeth am berfformiad disgyblion er 2000 wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

**Safonau yng nghyfnod allweddol 2**

34 Pan fydd disgyblion yn dechrau cyfnod allweddol 2, bydd y rhan fwyaf ohonynt wedi cyflawni safonau uwch mewn llafaredd mewn Cymraeg a Saesneg na mewn darllen neu ysgrifennu. Mae hyn oherwydd bod dysgu darllen ac ysgrifennu yn dibynnu ar fedrau iaith lafar disgyblion. Fel arfer, mae disgyblion yn datblygu medrau darllen yn gynharach ac yn gyflymach na'u medrau ysgrifennu.

35 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau llafaredd a chyflawniadau darllen disgyblion fwy neu lai yn debyg mewn Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith fod disgyblion yn fwy aeddfed o ran datblygu eu medrau ysgrifennu yn ystod y cyfnod allweddol hwn, mae'r gwahaniaeth rhwng safonau darllen ac ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg yn cynyddu. Mae safonau ysgrifennu disgyblion tua deg pwynt canran yn is yn Gymraeg a phum pwynt canran yn is mewn Saesneg.


**Safonau mewn medrau cyfathrebu yng nghyfnodau allweddol 1 a 2**

36 Mae tystiolaeth arolygu yn nhablau 3 a 4 isod, yn dangos bod disgyblion yn cyflawni safonau is mewn ysgrifennu na darllen mewn Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd. Mae hwn yn ddarlun tebyg iawn i ganlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Tabl 3: Safonau medrau cyfathrebu mewn Cymraeg mewn ysgolion cynradd yn 2006-2007***


**Darllen**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 1: 4% | Gradd 2: 57% | Gradd 3: 33% | Graddau 4 a 5: 8% |




**Ysgrifennu**


| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 1: 3% | Gradd 2: 47% | Gradd 3: 42% | Graddau 4 a 5: 7% |



## Tabl 4: Safonau medrau cyfathrebu mewn Saesneg mewn ysgolion cynradd yn 2006-2007*


**Darllen**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 1: 11% | Gradd 2: 80% | Gradd 3: 9% | Graddau 4 a 5: 1% |




**Ysgrifennu**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 1: 11% | Gradd 2: 64% | Gradd 3: 21% | Graddau 4 a 5: 3% |




* Lle mae canrannau wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100.


### Safonau yng nghyfnod allweddol 3

37 Nid oes modd dadansoddi safonau yn lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar wahân ar gyfer darllen ac ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 3 oherwydd bod y data wedi'i gyhoeddi ar lefel pwnc yn hytrach nag yn ôl targed cyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth arolygu a ddangosir yn nhablau 5 a 6 isod, yn dangos bod disgyblion yn parhau i beidio â gwneud cystal mewn ysgrifennu na mewn darllen mewn Cymraeg a Saesneg yn y cyfnod hwn. Mae llai o waith da a rhagorol mewn ysgrifennu na mewn darllen.

## Tabl 5: Safonau medrau cyfathrebu mewn Cymraeg mewn ysgolion uwchradd yn 2006-2007*


**Darllen**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 1: 7% | Gradd 2: 56% | Gradd 3: 28% | Graddau 4 a 5: 9% |




**Ysgrifennu**


| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 1: 2% | Gradd 2: 56% | Gradd 3: 33% | Graddau 4 a 5: 9% |



## Tabl 6: Safonau medrau cyfathrebu mewn Saesneg mewn ysgolion uwchradd yn 2006-2007*


**Darllen**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 1: 9% | Gradd 2: 80% | Gradd 3: 12% | Graddau 4 a 5: 0% |




**Ysgrifennu**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 1: 9% | Gradd 2: 67% | Gradd 3: 23% | Graddau 4 a 5: 0% |




* Lle mae canrannau wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100.

### Perfformiad bechgyn a merched

38 Dros gyfnod o sawl blwyddyn, mae canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn dangos gwahaniaethau mawr yng nghyflawniadau bechgyn a merched mewn Cymraeg a Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Dangosir gwybodaeth am gyrhaeddiad bechgyn a merched er 2000 yn Atodiad 3. Mae bechgyn hefyd yn parhau i gyflawni'n well na merched bron ym mhob un o'r pynciau mewn arholiadau Tystysgrif Gyffredinol Addysgu Uwchradd (TGAU) yng nghyfnod allweddol 4.

39 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwaith i gau'r bwlch ym mhob cyfnod allweddol wedi gwella perfformiad bechgyn ar y cyfan, ond mae'r gwahaniaeth rhwng y safonau y mae merched a bechgyn yn eu cyflawni wedi aros yr un fath. Mae hyn oherwydd bod merched hefyd wedi elwa ar y camau y mae ysgolion wedi'u cymryd i wella perfformiad bechgyn. At ei gilydd, mae perfformiad bechgyn wedi parhau tua 10 pwynt canran y tu ôl i ferched mewn safonau Cymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 dros y cyfnod hwn. Mae bwlch ehangach yng nghyfnod allweddol 3 lle mae bechgyn tua 16 pwynt canran y tu ôl i ferched. Mae adroddiad Estyn 'Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion' (2008) yn cyfeirio'n fanylach at y materion dan sylw.

## Cynllunio'r cwricwlwm

40 Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae ansawdd cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer addysgu Cymraeg a Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 wedi gwella yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae awdurdodau lleol wedi llunio deunyddiau arweiniad defnyddiol. Mae mentrau'r llywodraeth i wella llythrennedd a'r defnydd o ystod o adnoddau masnachol wedi helpu staff i roi sylw manwl i'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau y dylai disgyblion eu caffael.

41 Mae'r gwelliannau mwyaf mewn cynllunio'r cwricwlwm wedi bod:

- yn y cynlluniau manylach, mwy cydlynus, sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- yn yr amcanion addysgu cliriach a'r canlyniadau dysgu mwy eglur ar gyfer disgyblion ar lefelau testun, brawddeg a gair; ac
- yn yr her gynyddol mewn tasgau darllen ac ysgrifennu er mwyn i ddisgyblion allu datblygu a mireinio eu medrau llythrennedd.

42 Caiff rhai o'r agweddau hyn eu hegluro yn astudiaethau achos 1 a 2 yn Atodiad 1.

43 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi mwy o flaenoriaeth i ddarllen ac ymateb i destunau llenyddol, yn enwedig ffuglen, ac nid ydynt yn rhoi digon o sylw i fedrau darllen ac ysgrifennu deunydd nad yw'n llenyddol. Mae'r diffyg hwn mewn cynllunio a darpariaeth yn amlwg iawn mewn ysgolion uwchradd.

44 Mewn lleiafrif bach o ysgolion cynradd ac uwchradd, mae diffygion o ran cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys:

- bwriadau addysgu aneglur a gwaith sy'n ailadroddus ac yn anniddorol fel nad yw diddordeb disgyblion wedi'i ennyn digon i helpu iddynt gyrraedd safonau uchel;
- ni roddir digon o ystyriaeth i'r medrau llythrennedd y mae disgyblion yn eu dysgu ym mhob grŵp blwyddyn a chyfnod, sy'n rhwystro dilyniant yn eu dysgu;
- nid yw'r gwaith yn gweddu'n ddigon da i anghenion dysgu disgyblion; a
- diffyg sylw i farddoniaeth fel ffurf lenyddol ac felly prin yw'r enghreifftiau o ymdrin â cherddi ac ysgrifennu am farddoniaeth a geir bob blwyddyn.

45 Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, nid yw'r cynllunio yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion dysgu penodol y disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn rhugl.

46 Mae medrau cyfathrebu darllen ac ysgrifennu yn datblygu'n fwyaf llwyddiannus mewn ysgolion cynradd ac uwchradd pan fydd disgyblion yn eu datblygu ac yn eu defnyddio fel rhan o'u dysgu ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Dros y

blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi diwygio eu cynlluniau pwnc i ddangos y modd y bydd cyfathrebu a medrau eraill[4] yn cael eu defnyddio mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae athrawon arbenigol pynciau ar wahân i Gymraeg a Saesneg yn defnyddio fframwaith medrau a'r meini prawf ar gyfer cymwysterau medrau i helpu disgyblion i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu sy'n berthnasol i'r pwnc y maent yn ei astudio. Mae'r dull systematig hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cyfathrebu i safonau uwch oherwydd eu bod yn eu hymarfer mewn ystod o gyd-destunau.

47 Yn yr arfer orau, mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm:

- yn cael ei arwain gan bolisi ysgol gyfan sy'n sicrhau cydlyniad a chysondeb ac yn trefnu bod pob aelod o staff yn gyfrifol am ddatblygu medrau cyfathrebu;
- yn cael ei ymgorffori'n gryf ym mhob cynllun gwaith a chynllun gwers; ac
- yn ystyried gwahanol alluoedd a chynnydd y disgyblion er mwyn sicrhau bod eu dysgu yn cynnwys y lefel gywir o gymorth, her a dilyniant.

48 Mae astudiaethau achos 3 a 4 yn Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o arfer ragorol wrth ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion ar draws y cwricwlwm.

49 Er gwaethaf y ffaith fod gwelliannau i gynllunio pynciau yn cynnwys defnyddio medrau cyfathrebu, mae hwn yn faes i'w ddatblygu o hyd mewn tua thraean o ysgolion, yn fwyaf arbennig mewn ysgolion uwchradd. Collir cyfleoedd i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion wrth iddynt astudio pynciau eraill. Mae hyn oherwydd nad yw'r cynlluniau yn ddigon penodol am y medrau darllen ac ysgrifennu y mae angen i ddisgyblion eu defnyddio. Nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i'r modd y bydd medrau cyfathrebu disgyblion yn cael eu datblygu mewn ffordd raddol a systematig, gan adeiladu ar y medrau y mae disgyblion yn eu hennill mewn gwersi Cymraeg a Saesneg, ac ychwanegu atynt.

50 Mae'r diffygion wrth ddatblygu medrau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm yn cynnwys:

- dim digon o gytuno neu ymrwymo i gynllun a chymryd cyfrifoldeb am addysgu medrau darllen ac ysgrifennu ar lefel ysgol gyfan;
- cynllunio nad yw'n nodi'r medrau darllen ac ysgrifennu penodol y dylid eu datblygu mewn gwaith mewn pynciau eraill;
- gofynion darllen ac ysgrifennu nad ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i fedrau presennol disgyblion ac nad ydynt yn cael eu haddasu ddigon yn ôl anghenion dysgu disgyblion;
- diffyg cysylltiadau â rhaglenni darllen unigol disgyblion, er enghraifft, eu harwain at fywgraffiad sy'n berthnasol i'r cyfnod sy'n cael ei astudio mewn hanes; ac
- mewn ysgolion uwchradd, yr amgyffrediad mai athrawon Cymraeg a Saesneg yn unig sy'n gyfrifol am fedrau cyfathrebu.

---

[4] Mae'r medrau eraill hyn yn cynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), rhif, y Cwricwlwm Cymreig ac addysg bersonol a chymdeithasol

## Ansawdd yr addysgu a'r asesu

### Ansawdd yr addysgu

51 Mae ansawdd yr addysgu mewn Cymraeg a Saesneg wedi gwella'n gyson dros y 10 mlynedd diwethaf. Cyflwynir llawer o wersi ar gyflymder da ac maent yn cynnwys addysgu darllen ac ysgrifennu mewn modd medrus. Mae addysgu da a brwdfrydedd dros iaith a llenyddiaeth mewn Cymraeg a Saesneg yn meithrin agweddau cadarnhaol at iaith a llenyddiaeth.

52 Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae staff yn cysylltu siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu er mwyn i ddisgyblion ddeall bod y moddau iaith hyn yn dibynnu ar ei gilydd. Trwy wrando a darllen, mae disgyblion yn deall y modd y mae iaith yn cyfleu ystyr ac maent yn datblygu'r medrau hyn drostynt eu hunain ar lafar ac yn ysgrifenedig. Pan fydd staff yn datblygu'r medrau hyn trwy destunau diddorol a heriol, caiff disgyblion eu cymell i ddod yn ddarllenwyr annibynnol ac yn gyfathrebwyr parod.

53 Yn yr addysgu gorau, caiff medrau iaith eu haddysgu mewn modd eglur. Mae'r athro yn dangos ac yn esbonio medrau penodol er mwyn i ddisgyblion ddeall yn glir ac yn gallu cymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu drostynt eu hunain. Caiff tasgau darllen ac ysgrifennu eu hanelu at y lefel gywir a'u strwythuro mewn ffordd sy'n galluogi disgyblion i adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn gallu ei wneud a datblygu eu medrau ymhellach.

54 Pan fydd ffocws parhaus ar ffoneg yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig mewn Saesneg, mae'r dull hwn yn helpu disgyblion i atgyfnerthu'r wybodaeth hon a'i defnyddio i ddatgodio geiriau yn effeithiol. Mae gwaith effeithiol yn cynnwys:

- diwygio ac atgyfnerthu cyfuniad o ffonemau;
- adnabod patrymau sillafau mewn geiriau amlsillafog; a
- pharhau i bwysleisio'r defnydd o wybodaeth ffonig fel un o'r strategaethau ar gyfer darllen geiriau anghyfarwydd.

55 Mae'n bwysig sicrhau gwybodaeth disgyblion am iaith ar gyfer datgodio – darllen ystod o destunau yn gywir ac yn annibynnol – ac ar gyfer amgodio – sillafu geiriau yn gywir.

56 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn datblygu medrau darllen datblygedig orau trwy ddarllen ystod o destunau ffuglen a ffeithiol sydd wedi'u hysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae disgyblion yn cyflawni safonau uchel wrth ddarllen pan fydd staff yn defnyddio testunau diddorol i annog ymateb personol disgyblion ac ymestyn eu dealltwriaeth. Yn yr addysgu mwyaf effeithiol, mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys darllen ar y cyd, darllen mewn grŵp a darllen dan arweiniad i wella rhuglder a medrau dealltwriaeth disgyblion.

57 Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu orau pan fydd staff yn dewis testunau o ansawdd uchel. Mae hyn oherwydd bod ansawdd iaith y disgyblion eu hunain fel

arfer yn ymwneud yn uniongyrchol ag ansawdd yr hyn y maent yn ei ddarllen a'i glywed. Mae testunau hefyd yn cynnwys ystod o gyfryngau, fel fideos, tapiau sain a chylchgronau arbenigol sy'n herio'r dybiaeth fod darllen yn ymwneud â llyfrau yn unig.

58 Yn yr arfer orau, mae staff:

- yn helpu disgyblion i ddod yn ddarllenwyr craff, sy'n gallu llunio barnau am ystyr, cywirdeb ac ansawdd yr hyn y maent yn ei ddarllen;
- yn annog disgyblion i ddarllen yn eang er pleser a datblygu arferion darllen hamdden sy'n hanfodol ar gyfer bywyd;
- yn galluogi disgyblion i ddarllen mewn gwahanol ffyrdd at wahanol ddibenion, fel chwilio am benawdau a geiriau allweddol, rhagweld ymateb cymeriad i ddigwyddiadau mewn naratif ac ystyried dehongliadau gwybodaeth amgen;
- yn helpu disgyblion i gaffael ystod o strategaethau adfer gwybodaeth, fel defnyddio mynegeion a systemau TGCh; ac
- yn gwneud defnydd da o fentrau fel 'Cysgodi Medal Carnegiel' a 'Darllenwch Filiwn o Eiriau' Sgiliau Sylfaenol Cymru.

59 Mae disgyblion yn ysgrifennu orau pan fydd yr ysgrifennu yn berthnasol i'w hanghenion a'u diddordebau. Mae hyn yn digwydd pan fyddant yn ysgrifennu ar gyfer dibenion a chynulleidfaoedd go iawn, er enghraifft, erthyglau ar gyfer cylchgronau, pamffledi neu bosteri ar faterion testunol, cyflwyniadau llafar, adolygiadau ar gyfer clwb llyfrau a storïau, cerddi a sgriptiau drama sy'n cael eu rhannu ag eraill.

60 Caiff yr ysgrifennu gorau ei ysgogi gan drafodaeth neu weithgaredd ymarferol, fel drama, chwarae rôl neu greu yn fyrfyfyr, sy'n ymestyn ffordd disgyblion o feddwl er mwyn iddynt gael digonedd o syniadau ar gyfer eu hysgrifennu. Mae ysgrifennu da gan ddisgyblion fel arfer o ganlyniad i symbyliad pwerus, fel nofel neu stori fer, drama neu farddoniaeth neu symbyliad nad yw'n llenyddol, fel pamffled addysgiadol neu erthygl mewn papur newydd neu ffilm neu raglen deledu sy'n ysgogi syniadau.

61 Mae addysgu gwahanol fathau o ysgrifennu yn effeithiol yn cynnwys esbonio nodweddion gwahanol fathau o destun a'r technegau y mae awduron yn eu defnyddio i greu effeithiau penodol. Mae staff a disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd ar ddarn o waith sy'n modelu'r medrau y mae angen i ddisgyblion eu defnyddio drostynt eu hunain. Mae disgyblion yn dysgu am nodweddion gwahanol destunau ar lefel testun cyfan, brawddeg a gair. Maent yn dysgu sut i osod darn o ysgrifennu a threfnu eu syniadau, ffurfio brawddegau mewn gwahanol ffyrdd a dewis yr eirfa orau. Yn raddol, mae disgyblion yn dysgu sut i ddefnyddio technegau penodol fel cyflythrennu, delweddaeth, rhythm a rhethreg i gyfleu ystyr.

62 Gwelir y safonau ysgrifennu gorau fel arfer pan fydd ysgrifennu'n cael ei addysgu fel proses gyfansoddi sy'n cynnwys diwygio, golygu a rhannu drafftiau ag eraill. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu ffyrdd o wella cynnwys, mynegiant a chywirdeb eu gwaith. Maent yn dysgu arferion ysgrifennu da y maent wedyn yn eu cymhwyso yn annibynnol.

63 Mae sillafu, atalnodi a gramadeg cywir yn hanfodol i gyfathrebu ystyr yn glir i ddarllenydd. Mae ymchwil yn dangos bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn meddwl mai sillafu, atalnodi a gramadeg yw’r agweddau anoddaf ar ddysgu ysgrifennu. Mae gan ysgolion sydd wedi gwella cywirdeb ysgrifennu disgyblion arweiniad clir ar addysgu sillafu, atalnodi a gramadeg y mae pob un o’r staff yn ei ddefnyddio’n gyson. Mewn ysgolion lle mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda neu’n well, mae staff yn deall bod yn rhaid addysgu medrau sillafu, atalnodi a gramadeg yn eglur i ddisgyblion.

64 Mae sillafu yn gwella pan fydd disgyblion:

- yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ffoneg ac yn darllen geiriau allan yn uchel cyn eu sillafu;
- yn dysgu ac yn deall teuluoedd geiriau a phatrymau sillafu rheolaidd;
- yn dysgu sillafu geiriau a ddefnyddir yn aml sy’n swnio’n debyg ond yn cael eu sillafu’n wahanol; ac
- yn cael eu haddysgu ynglŷn â strategaethau i ddysgu sillafiadau afreolaidd, gan gynnwys ‘edrych, dweud, gorchuddio, ysgrifennu, gwirio’.

65 Mae gan ysgolion sydd wedi rhoi blaenoriaeth uchel i wella sillafu strategaethau i helpu disgyblion i wirio yn hytrach na dyfalu sillafiadau nad ydynt yn eu gwybod. Yn yr ysgolion hyn, mae’r staff yn darparu geiriaduron a thesawrysau i ddisgyblion edrych ar sillafiadau ac ystyr geiriau, addysgu geirfa arbenigol a therminoleg pwnc i ddisgyblion, dangos geiriau allweddol yn amlwg mewn ystafelloedd dosbarth ac addysgu disgyblion i ddiwygio a golygu eu gwaith.

66 Mae camgymeriadau sillafu, atalnodi neu ramadeg yn aml yn amharu ar gynnwys gwaith ysgrifennu llawer o ddisgyblion o bob gallu. Mae disgyblion sy’n cael anhawster â’r medrau hyn yn cael trafferth ysgrifennu’n gymwys wrth i dasgau ysgrifennu fynd yn fwy cymhleth. Yn aml, mae’r disgyblion hyn yn colli hyder wrth ysgrifennu ac yn gwneud llai o gynnydd mewn ysgrifennu na mewn siarad, gwrando a darllen. Nid yw lleiafrif o ysgolion cynradd a llawer o ysgolion uwchradd yn rhoi sylw cyson i gywirdeb mewn gwaith ysgrifenedig.

67 Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae disgyblion yn aml yn cael anawsterau â sillafu mewn Saesneg, yn enwedig ym Mlynyddoedd 3 a 4, oherwydd nad yw patrymau sillafu mewn Saesneg mor gyson yn seinegol ag ydynt yn Gymraeg. Yn yr arfer orau, mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn rhoi sylw penodol i helpu disgyblion i ddysgu sillafu yn Saesneg ar draws cyfnod allweddol 2 ac mae ysgolion uwchradd yn parhau i roi cymorth lle bydd angen er mwyn i ddisgyblion ddysgu sillafu’n gywir yn y ddwy iaith.

68 Caiff atalnodi ei addysgu orau pan fydd yr athro yn dangos yn glir sut a pham y caiff atalnodi ei ddefnyddio. Mae hyn yn aml yn cael ei wneud yn effeithiol trwy ddarllen ac ysgrifennu ar y cyd ac yna, caiff ei atgyfnerthu trwy gymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion unigol. Mae staff ysgolion cynradd yn gyffredinol yn rhoi sylw mwy rheolaidd i atalnodi na staff ysgolion uwchradd. Mewn gwersi Cymraeg a Saesneg ac mewn adrannau anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion uwchradd, caiff

atalnodi fel arfer ei addysgu'n dda ond ni roddir yr un sylw i fedrau atalnodi â'r hyn a welir mewn pynciau eraill. O ganlyniad, nid yw rhai disgyblion ysgol uwchradd yn credu bod atalnodi yn bwysig.

69 Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o ramadeg trwy eu darllen. Mae'r camgymeriadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â chytundeb rhwng y goddrych a'r ferf, amserau a chystrawen brawddegau cymhleth. Pan fydd staff yn esbonio confensiynau gramadegol yn glir, mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall y camgymeriadau yn eu gwaith. Fodd bynnag, prin yw'r arfer gyson wrth addysgu gramadeg. Mae rhai ysgolion uwchradd yn rhoi arweiniad clir iawn i ddisgyblion, sy'n aml wedi'i ddatblygu gyda'r adran ieithoedd tramor modern, fel bod pob un o'r staff ddefnyddio'r un derminoleg i siarad am ramadeg. Yn yr ysgolion hyn, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o ramadeg yn Gymraeg ac yn Saesneg.

70 Mae llawer o ddisgyblion sy'n gwneud camgymeriadau mewn gwaith ysgrifenedig yn gwneud hynny oherwydd ansicrwydd neu esgeulustod. Gall llawer o ddisgyblion gywiro camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg eu hunain yn gyflymach pan gânt eu rhybuddio am gamgymeriad. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn golygu eu gwaith yn unol â'r drefn arferol. Maent yn datblygu'r arfer i olygu trwy ddarllen gwaith ei gilydd a helpu ei gilydd. Mae gan rai ysgolion systemau sillafu 'cyfaill' sydd wedi gwneud i ddisgyblion ysgrifennu'n fwy gofalus. Mae staff effeithiol yn dod o hyd i gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg ac yn ymdrin â nhw yn y dosbarth neu gydag unigolion yn rheolaidd. Mae ysgolion sydd â rhaglenni ymyriad sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn rhoi cymorth ychwanegol da i ddisgyblion sy'n cael anawsterau penodol â chywirdeb wrth ysgrifennu.

### Asesu darllen ac ysgrifennu

71 Mae'r ffordd y mae staff yn asesu darllen ac ysgrifennu wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae bron pob ysgol yn defnyddio data asesu i olrhain cynnydd disgyblion trwy lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg a Saesneg. Mae barnu perfformiad disgyblion yn gyson yn erbyn nodweddion dilyniant yn holl bwysig wrth gynllunio cyfnod nesaf y dysgu.

72 Mae pob ysgol yn gosod lefelau targed i ddisgyblion eu cyflawni erbyn diwedd cyfnodau allweddol 2 a 3. Fodd bynnag, nifer fach o ysgolion sy'n gosod targedau ar wahân ar gyfer darllen ac ysgrifennu, er bod disgyblion yn aml yn gweithio ar lefelau gwahanol yn yr agweddau hyn. Mae llawer o ysgolion hefyd yn gosod targedau tymor byr ar gyfer disgyblion mewn agweddau penodol ar Gymraeg neu Saesneg. Mae mwyafrif yr ysgolion hyn yn adolygu cynnydd disgyblion tuag at gyflawni eu lefelau targed yn rheolaidd. Yn yr arfer orau, maent yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon i roi cymorth ychwanegol amserol i ddisgyblion nad ydynt yn gwneud cynnydd yn unol â disgwyliadau, sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y disgyblion hyn yn cyrraedd eu lefel ddisgwyliedig.

73 Mae llawer o ysgolion yn ymwybodol o'r ffaith nad yw gwaith ysgrifennu disgyblion cystal â'u darllen. Mae rhesymau da am hyn weithiau. Er enghraifft, mae disgyblion y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn aml yn gwneud cynnydd cyflymach mewn darllen ac mae eu gwaith ysgrifennu yn datblygu'n llawnach yn ddiweddarach. Fodd bynnag, nifer fach iawn o ysgolion sy'n defnyddio tystiolaeth

asesu i gynllunio gwelliannau mewn ysgrifennu i'r un graddau ag y maent yn cynllunio i wella darllen. Yn y rhan fwyaf o gynlluniau gwella ysgol a phwnc, rhoddir llawer mwy o sylw i ddarllen nag ysgrifennu, hyd yn oed lle mae tystiolaeth bod angen gwella safonau mewn ysgrifennu, yn enwedig ymhlith disgyblion llai abl.

74 Yn yr arfer orau wrth asesu darllen ac ysgrifennu:

- mae meini prawf asesu yn rhan annatod o gynllunio, addysgu a marcio;
- mae polisi ysgol gyfan ar gyfer marcio ysgrifennu y mae staff yn ei ddilyn yn gyson ac y mae disgyblion yn ei ddeall;
- mae disgyblion yn gwybod amcanion gweithgareddau a thasgau ac yn deall yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn gwersi;
- mae adborth llafar ac ysgrifenedig yn cyfeirio'n benodol at yr hyn y mae disgyblion wedi'i gyflawni a pha agweddau ar waith y mae angen iddynt eu gwella; ac
- mae staff a disgyblion yn olrhain cynnydd ac yn cynllunio ar gyfer gwella yn y tymor byr a'r tymor hwy.

75 Wrth asesu darllen yn effeithiol, mae staff yn barnu cynnydd disgyblion o ran rhuglder, dealltwriaeth ac ystod y darllen. Wrth wrando ar ddisgyblion yn darllen, mae staff yn nodi nodweddion arwyddocaol o ran perfformiad disgyblion, fel geiriau y cânt anhawster â nhw a'u hoff bethau a'u cas bethau, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu disgyblion i wneud cynnydd. Maent yn monitro ystod darllen annibynnol y disgyblion, er enghraifft, trwy archwilio dyddiaduron darllen disgyblion yn rheolaidd, a rhoi adborth ac arweiniad i ddatblygu ac ymestyn eu hoffterau darllen a'u diddordebau.

76 Wrth asesu ysgrifennu yn effeithiol, caiff gwaith disgyblion ei ddarllen a'i farcio yn ôl yr amcanion dysgu a rennir gyda'r disgyblion. Mae staff yn gwneud sylwadau ar waith disgyblion sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac yn rhoi arweiniad lle mae camgymeriadau penodol, er enghraifft, sut i ddefnyddio paragraffau i drefnu gwaith.

77 Mae ansawdd y marcio yn gwella ar y cyfan, ond mae gormod o farcio gwael o hyd sy'n cyfeirio at ymdrechion y disgyblion neu'n nodi gwendidau yn unig, heb esbonio, er enghraifft, 'da iawn' neu 'galli di wneud yn well na hyn' neu 'mae hwn yn rhy fyr'. Mae marcio sy'n cynghori heb roi arweiniad ar sut i wella yn peri digalondid ac nid yw sylwadau fel 'gofala wrth atalnodi' neu 'defnyddia baragraffau' yn helpu disgyblion i ddeall swyddogaeth atalnodi neu sut i strwythuro eu gwaith. Mae'r math hwn o farcio yn atgyfnerthu methiant ac yn aml yn wastraff o amser athrawon.

### Asesu cyfoedion a hunanasesu

78 Yn gynyddol, mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn dysgu asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae'r arfer hon yn gwneud dysgwyr yn ddisgyblion llawer gwell oherwydd eu bod yn deall yr hyn y gallant ei wneud yn dda a'r agweddau

ar eu gwaith y mae angen iddynt eu gwella. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyflymach oherwydd eu bod yn gallu asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae astudiaethau 5 a 6 yn dangos pa mor llwyddiannus y mae ysgolion wedi bod wrth annog disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain.

79 Mae asesu cyfoedion a hunanasesu yn fwyaf effeithiol pan fydd staff yn rhoi ‘meini prawf llwyddo’ clir i ddisgyblion. Mae gwybodaeth, fel matricsau sy’n dangos nodweddion darllen ac ysgrifennu ar wahanol lefelau cyflawniad yn helpu disgyblion i bennu drostynt eu hunain ble maent wedi cyrraedd ar gontinwwm datblygu graddol a’r hyn y mae’n rhaid iddynt ei ddysgu nesaf. Mae rhai ysgolion wedi datblygu matricsau hynod ddefnyddiol ar gyfer gwahanol fathau o ysgrifennu sy’n nodi’r nodweddion a’r technegau penodol sy’n ofynnol ar gyfer gwahanol fathau o ysgrifennu, er enghraifft, erthyglau papur newydd, straeon byrion neu areithiau ffurfiol.

## Bodloni anghenion disgyblion

80 Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn fwyfwy ymwybodol o grwpiau o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig oherwydd eu bod yn olrhain cynnydd disgyblion yn fwy systematig ac yn dadansoddi data yn fanylach nag yr oeddent 10 mlynedd yn ôl. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae staff yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i ddarganfod y rhesymau dros dangyflawni, er enghraifft, medrau ysgrifennu gwael disgyblion llai abl neu ddiffyg testunau a thasgau heriol ar gyfer disgyblion abl.

### Mynd i'r afael â thangyflawni ymhlith bechgyn

81 Yng Nghymru, yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, mae merched yn cyrraedd safonau uwch na bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg a bron ym mhob pwnc arall. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn Cymraeg a Saesneg wedi ehangu. Mae'r bwlch ehangaf rhwng cyflawniad bechgyn a merched mewn ysgrifennu.

82 Mae mwy o fechgyn na merched yn cael trafferth dysgu Cymraeg a Saesneg. Gall yr anawsterau hyn effeithio ar fynediad disgyblion at ddysgu ac mae'n cyfyngu eu perfformiad ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Erbyn iddynt fod yn 14 oed, nid yw lleiafrif sylweddol o fechgyn yn gallu dal i fyny â llawer o'r gwaith yn yr ysgol ac maent yn profi ymdeimlad cynyddol o rwystredigaeth a methiant. Mae bechgyn â medrau llythrennedd gwael yn llawer mwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol na'u cyfoedion. Ar yr un pryd, nid yw bechgyn uchel iawn eu gallu yn aml yn gwneud cystal ag y gallent.

83 Mae ymchwil a thystiolaeth arolygu yn dangos bod tangyflawni ymhlith bechgyn yn fater cymhleth na ellir ei briodoli i ryw yn unig. Mae adroddiad Estyn ar 'Gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion' (2008) yn cydnabod mai dim ond un o'r ffactorau arwyddocaol niferus sy'n dylanwadu ar y graddau y mae disgyblion yn gwireddu eu potensial, yw rhyw.

84 Mae rhyw fath o sylfaen ffeithiol yn aml i honiadau fel 'Mae'n well gan lawer o fechgyn ddeunydd ffeithiol' neu 'Nid yw bechgyn yn hoffi darllen nac ysgrifennu storïau' neu 'Mae bechgyn yn cael eu dylanwadu'n fwy gan eu grwpiau cyfoedion na merched', ond nid ydynt yn ddefnyddiol bob tro. Mae tangyflawni ymhlith bechgyn yn fater cymhleth oherwydd bod llawer o ffactorau'n gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys agweddau diwylliannol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n effeithio ar ddewisiadau disgyblion ac yn dylanwadu ar ganfyddiadau staff yn ogystal ag ymddygiad disgyblion. Yn y drafodaeth am dangyflawni ymhlith bechgyn, mae'n bwysig cofio bod llawer o fechgyn yn gwneud yn dda iawn mewn Cymraeg a Saesneg a'u bod yn datblygu medrau cyfathrebu datblygedig. Hefyd, nid yw pob merch, wrth gwrs, yn gwneud yn well na'u cyfoedion sy'n fechgyn. Mae rhai grwpiau o ferched hefyd, yn aml mewn ardaloedd sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd, nad ydynt yn cyflawni cystal ag y gallent.

85 Mae dadansoddiad o berfformiad bechgyn a merched wrth gyrraedd y dangosydd pwnc craidd (DPC) yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 cyn 2005 yn dangos bod

athrawon yn gyffredinol yn asesu cyflawniad bechgyn islaw eu cyrhaeddiad ym mhrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn asesu cyflawniad merched yn unol â'u cyrhaeddiad ym mhrofion y CC. Ni ellir cynnal dadansoddiadau tebyg ar gyfer canlyniadau ar ôl 2005 oherwydd bod profion y CC ar gyfer disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol wedi dod i ben[5]. Rhaid i unrhyw gasgliad o'r canlyniadau hyn osgoi dehongliadau rhy syml o adnabod rhyw a chyflawniad bechgyn. Fodd bynnag, dengys ymchwil y gall y canlynol effeithio ar ganfyddiadau o berfformiad bechgyn:

- diffyg golwg gytbwys ar ystod lawn medrau bechgyn, gan gynnwys llafaredd, darllen ac ysgrifennu;
- diffyg hygrededd bechgyn i lwyddo oherwydd y cysylltiadau rhwng llythrennedd a hunaniaeth merched; a
- mwy o bwyslais ar gywirdeb a chyflwyno gwaith ysgrifennu, sy'n lleihau gwerth cynnwys y gwaith ysgrifennu.

86 Mae ymchwil a thystiolaeth arolygu hefyd yn dangos bod bechgyn yn llawer mwy tebygol o fod dan anfantais na merched oherwydd bod Cymraeg a Saesneg yn cael eu haddysgu mewn ffordd ddi-nod neu wan. Yn aml, er y bydd merched yn parhau i berfformio'n gymharol dda yn yr amgylchiadau hyn, mae'r effaith ar fechgyn yn anghyfartal yn eu hagwedd at ddysgu ac yn eu perfformiad. Mewn geiriau eraill, mae'n ymddangos bod bechgyn yn ymddieithrio yn gyflymach na merched pan fyddant yn cael eu haddysgu mewn ffordd ddi-nod.

87 Yn y nifer fach o ysgolion ledled Cymru lle nad oes llawer o wahaniaeth rhwng cyflawniadau merched a bechgyn mewn darllen ac ysgrifennu, mae safonau wedi gwella oherwydd bod staff wedi canolbwyntio ar y bechgyn a'r merched sy'n tangyflawni. Mae staff yn defnyddio canfyddiadau ymchwil yn ddoeth i lywio eu dulliau addysgu fel nad ydynt yn gor-symleiddio materion bechgyn/merched neu'n cyffredinoli am hoff arddulliau dysgu bechgyn mewn modd amhriodol. Er bod eu polisïau ysgol gyfan yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad bechgyn, mae ethos dysgu cadarnhaol yn gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal ac mae disgwyliadau uchel o ran bechgyn a merched.

88 Mae nodweddion gwersi y dengys ymchwil a thystiolaeth arolygu eu bod fwyaf effeithiol ar gyfer bechgyn yn cynnwys:

- gwersi wedi'u cynllunio'n dda iawn gyda nodau cyflawnadwy clir sy'n cael eu rhannu â disgyblion;
- gwaith llafar cyn gwaith darllen ac ysgrifennu er mwyn i ddisgyblion ddefnyddio siarad i ymarfer eu gwaith, sy'n helpu iddynt baratoi yn well ar gyfer tasgau;
- amrywiaeth o weithgareddau ysgogol sy'n defnyddio deunyddiau llenyddol a deunyddiau nad ydynt yn llenyddol, sy'n apelio at ddiddordebau bechgyn;

[5] Diddymwyd tasgau a phrofion y CC yn 2004 yng nghyfnod allweddol 2 ac yn 2005 yng nghyfnod allweddol 3.

- tasgau darllen ac ysgrifennu strwythuredig a phwrpasol sy'n cael eu hesbonio'n glir;

- defnyddio effaith gymhellol technoleg i annog cyfathrebu, darllen ac ymchwil;

- monitro gwaith disgyblion yn agos gyda chymorth penodol ar gyfer y rheiny y mae angen cymorth arnynt â threfnu eu gwaith;

- sylw i'r trefniadau eistedd a grwpiau i sicrhau'r manteision gorau posibl ar gyfer dysgu bechgyn a merched; a

- strategaethau cadarnhaol sy'n adeiladu hunan-barch disgyblion ac yn gwobrwyo ymdrech a gwaith da.

89 Mae dulliau addysgu eraill sy'n llwyddiannus gyda bechgyn a merched, yn cynnwys defnyddio chwarae rôl, drama a gwaith grŵp ar y cyd fel bod y dysgu yn ddiddorol ac yn gyffrous. Mae dewis a defnyddio deunyddiau yn ofalus, fel ffuglen a ffeithiol, testunau'r cyfryngau a thestunau delweddau sy'n symud, yn bwysig i ennyn diddordeb disgyblion a herio canfyddiadau o stereoteipiau rhyw. Mae'r defnydd o adnoddau, fel fframiau ysgrifennu a thempledi, hefyd yn helpu cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae astudiaeth achos 7 yn Atodiad 1 yn rhoi enghraifft o'r modd y cododd ysgol gynradd lefel cyflawniadau bechgyn trwy roi sylw i'r agweddau hyn.

90 Yn yr arfer orau, mae staff yn defnyddio ystod eang o wybodaeth asesu a data perfformiad yn fedrus i dargedu cymorth lle mae ei angen fwyaf. Caiff pob disgybl adborth manwl am ei waith, sy'n cymell bechgyn yn arbennig yn fawr. Yn yr ysgolion hyn, mae pwyslais brwd ar gael disgyblion i wirio eu gwaith eu hunain o ran cywirdeb a mynegiant gwell, gan weddu eu cyflawniadau i feini prawf clir. Defnyddir asesiadau cyfoedion a hunanasesiadau fel cyfryngau pwysig i helpu disgyblion i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella a gwneud cynnydd. Yn ychwanegol, mae mentora cyfoedion a rhaglenni darllen mewn pâr gyda disgyblion hŷn yn arbennig o lwyddiannus wrth helpu bechgyn i wneud cynnydd.

91 Fel hyn, mae staff yn helpu disgyblion i fagu hyder a llwyddo mewn Cymraeg a Saesneg. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fechgyn oherwydd bod angen iddynt weld eu hunain fel darllenwyr ac ysgrifenwyr.

### Bodloni anghenion disgyblion llai abl

92 At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn bodloni anghenion disgyblion llai abl yn well nag o'r blaen. Mae cymorth arbennig o dda fel arfer ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac mae'r rhan fwyaf o gynlluniau addysgol unigol (CAUau) yn nodi'r medrau darllen ac ysgrifennu y mae angen i ddisgyblion eu caffael a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn gwybod pa ddisgyblion yw'r rhai nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn darllen ac ysgrifennu ac yn ymyrryd i roi cymorth cyn gynted ag y bo modd i helpu iddynt ddal i fyny â'u cyfoedion. Mae astudiaethau achos 8, 9 a 10 yn Atodiad 1 yn dangos sut mae staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella'r cymorth ar gyfer disgyblion llai abl.

93 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae rhai o'r rhaglenni ymyriad mwyaf llwyddiannus, y caiff llawer ohonynt eu hariannu a'u cefnogi gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'r awdurdod lleol, yn cynnwys y canlynol:

- rhaglenni adfer darllen mewn ysgolion cynradd sy'n helpu disgyblion i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu;
- rhaglenni darllen dal i fyny;
- cyrsiau byr ar gyfer cyflymu llythrennedd;
- rhaglenni sillafu mewn pâr i fynd i'r afael ag anawsterau penodol;
- cynlluniau darllen mewn pâr gyda myfyrwyr chweched dosbarth hyfforddedig ar gyfer darllenwyr gwael ac amharod; a
- rhaglenni unigol a grŵp sy'n cael eu darparu gan gynorthwywyr cymorth dysgu.

94 Mae'r rhan fwyaf o raglenni cymorth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn helpu disgyblion i wella eu darllen a'u sillafu. Mae llai o raglenni cymorth i helpu disgyblion i wella eu medrau ysgrifennu ehangach. Mae hyn yn ddiffyg pwysig. Mae angen mwy o gymorth ar lawer o ddisgyblion llai abl ag ysgrifennu, yn enwedig wrth iddynt fynd yn hŷn ac wrth i dasgau ysgrifennu fynd yn fwy cymhleth. Gall disgyblion llai abl, yn enwedig bechgyn, ddigalonni oherwydd camgymeriadau mewn gwaith ysgrifenedig nad ydynt yn gwybod sut i'w cywiro.

95 Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae rhagdybiaeth ffug o hyd gan lawer o staff bod pob disgybl yn ddarllenwyr cymwys ac annibynnol erbyn iddynt symud o'r cyfnod addysg hwn.

### Bodloni anghenion disgyblion mwy abl a dawnus

96 Yn gynyddol, mae mwy o ysgolion yn ceisio trefnu darpariaeth well ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Fodd bynnag, lleiafrif bach o ysgolion yn unig sy'n darparu tasgau darllen ac ysgrifennu ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus sy'n eu hymestyn ac yn eu herio. Mae rhai ysgolion yn gwneud trefniadau ychwanegol da iawn ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus er mwyn rhoi mwy o symbyliad a chymhelliant iddynt gyflawni rhagoriaeth. Mae'r trefniadau hyn yn aml yn cynnwys grwpiau arbenigol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i roi cyfleoedd i ddisgyblion herio ac ymestyn eu medrau llythrennedd. Mae astudiaethau achos 11 a 12 yn Atodiad 1 yn darparu enghreifftiau o'r modd y mae disgyblion mwy abl a dawnus wedi elwa ar y ddarpariaeth arbenigol hon.

97 Yn yr arfer orau, mae staff:

- yn gwneud yn siŵr bod disgyblion mwy abl a dawnus yn darllen yn uchelgeisiol ac yn eang;
- yn gosod tasgau ysgrifenedig beichus yn rheolaidd sy'n annog ymchwil a gwaith gwreiddiol gan y disgyblion mwyaf abl; ac
- yn gwneud yn siŵr bod disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 7 yn cael eu herio digon fel eu bod yn gwneud cynnydd yn unol â'u gallu.

**Bodloni anghenion disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt**

98 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi dod yn fwyfwy amrywiol gyda nifer uchel o bobl yn dod o'r Undeb Ewropeaidd a lleoedd eraill i fyw a gweithio yng Nghymru. O ganlyniad, mae nifer y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (SIY) wedi cynyddu'n gyflym mewn nifer sylweddol o ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf. Mae llawer o awdurdodau addysg lleol yn rhoi cyngor a hyfforddiant wedi'u cynllunio'n dda i staff prif ffrwd i helpu iddynt fodloni anghenion nifer sy'n cynyddu'n gyflym o ddisgyblion SIY. Mae'r cymorth hwn wedi helpu disgyblion i gael addysgu a chymorth arbenigol mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

99 Mewn lleiafrif bach o ysgolion, nid yw staff yn gallu trefnu'r ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion SIY, oherwydd nad yw anghenion iaith disgyblion yn cael eu hasesu cyn gynted ag y maent yn cyrraedd yr ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig i helpu'r ysgol i nodi cyfnod caffael iaith pob disgybl a'r math o waith sydd ei angen i ddatblygu eu medrau Cymraeg a Saesneg ymhellach.

100 Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae ysgolion yn gwneud yn siŵr bod:

- disgyblion yn defnyddio siarad i ddatblygu eu syniadau ar lafar i ymateb i'r hyn y maent yn ei ddarllen;
- pwyslais ar helpu disgyblion i ymarfer a threfnu eu syniadau cyn ysgrifennu;
- cynnydd disgyblion yn cael ei fonitro'n agos wrth ddatblygu medrau iaith rhugl, cywir a hyderus; a bod
- cynorthwywyr cymorth dysgu a 'chyfeillion' sy'n gyfoedion yn rhoi cymorth unigol ychwanegol i unigolion a grwpiau wrth ddarllen ac ysgrifennu.

101 Mae astudiaeth achos 13 yn rhoi enghraifft o gymorth llythrennedd effeithiol ar gyfer disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

## Llyfrgelloedd ysgol a chanolfannau adnoddau dysgu

102 Gall llyfrgelloedd ysgol a chanolfannau adnoddau dysgu helpu disgyblion i ddod yn ddarllenwyr brwd, darganfod gwybodaeth a dysgu medrau ymchwil. O ganlyniad, gall disgyblion ddod yn ddysgwyr gwell a datblygu cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae gan fwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd gyfleusterau llyfrgell a chanolfannau adnoddau dysgu da, ond mae llyfrgelloedd yn ganolog i ddysgu disgyblion mewn lleiafrif o ysgolion yn unig. Yn yr adran sy'n dilyn, mae cyfeiriad at lyfrgelloedd ysgol hefyd yn cynnwys canolfannau adnoddau dysgu.

103 Yn yr arfer orau, mae llyfrgelloedd ysgol yn ganolog i ymdrech yr ysgol i feithrin darllen er pleser ac ar gyfer dysgu. Mae gan staff ddisgwyliadau clir o'r modd y gall y llyfrgell gefnogi dysgu, fel helpu disgyblion i ddod yn ddarllenwyr brwd, darganfod gwybodaeth a dysgu medrau ymchwil. Mae polisïau a chynlluniau ysgol yn gwneud yn siwr bod y llyfrgell ysgol yn gynhwysol yn addysgol wrth hyrwyddo a sicrhau bod pob grŵp o ddisgyblion yn ei defnyddio. Mae adeilad y llyfrgell yn ddeniadol a hygyrch i ddisgyblion yn ystod, a'r tu allan i oriau ysgol, ac mae cyfleoedd i'r gymuned ehangach rannu'r defnydd o'r llyfrgell, sy'n helpu sicrhau bod y llyfrgell yn cyfrannu'n effeithiol i ddysgu gydol oes.

104 Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl y llyfrgell wrth helpu codi safonau. Ar draws yr ysgol, mae gan y staff ddealltwriaeth a disgwyliad clir o'r modd y gall y llyfrgell gefnogi dysgu. Mae'r llyfrgellydd neu'r athro sy'n gyfrifol yn gweithio gyda staff yr ysgol yn agos i wneud y gorau o effeithiolrwydd gwaith disgyblion yn y llyfrgell, fel helpu disgyblion i gaffael a defnyddio medrau casglu gwybodaeth, gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae cynllunio'r cwricwlwm a chynlluniau gwella ysgol yn cydnabod rôl bwysig y llyfrgell. Mae monitro ac arfarnu gwaith y llyfrgell yn rheolaidd yn galluogi staff i farnu ei heffeithiolrwydd wrth gyfrannu i ddysgu disgyblion. Mae astudiaeth achos 14 yn Atodiad 1 yn dangos y modd y mae ysgol uwchradd wedi defnyddio'r llyfrgell i gyfrannu mewn modd effeithiol iawn i ddysgu disgyblion.

105 Mae'r llyfrgelloedd ysgol gorau yn darparu ystod eang iawn o lyfrau a ffynonellau gwybodaeth nad ydynt yn llyfrau ar wahanol lefelau i fodloni anghenion a diddordebau pob disgybl. Mae staff yn defnyddio'r llyfrgell i wneud y gorau o ddysgu disgyblion ac ategu ac ymestyn y gwaith a wna'r disgyblion yn y disgyblion. Er enghraifft, defnyddir y llyfrgell i gefnogi a hyrwyddo mentrau ysgol, fel cylchoedd darllen a grwpiau ysgrifenwyr ifanc.

106 Gallai llawer o ysgolion wneud mwy i godi safonau trwy:

- wneud y gorau o'r defnydd a wnânt o'r llyfrgell i gefnogi'r broses o addysgu darllen ac ysgrifennu;
- cynllunio ar gyfer defnyddio'r llyfrgell ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm; a
- chanfod pa mor dda y mae'r llyfrgell yn cyfrannu i ddysgu disgyblion, fel bod staff yn gallu barnu ei heffeithiolrwydd a gwella'r modd y caiff ei defnyddio.

## Pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3

107 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae bron pob ysgol uwchradd a'u hysgolion cynradd partner wedi dechrau gweithio'n agosach i wneud y cwricwlwm ac addysgu ym Mlynyddoedd 6 a 7 yn fwy di-dor. Y gwaith mwyaf cyffredin a welwyd i wella pontio yw cynllunio'r unedau gwaith pontio yn aml mewn Cymraeg a Saesneg sy'n cysylltu gwaith a wneir ym mlynyddoedd 6 a 7. Mae'r gwaith hwn wedi helpu gwella parhad yng ngwaith dysgu'r disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i gyfnod nesaf eu haddysg.

108 Yn ddiweddar, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi blaenoriaeth uwch i gyflawni parhad mewn datblygiad iaith. Mae eu gwaith wedi bod mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- cynllunio'r cwricwlwm;
- dulliau addysgu; ac
- asesu ac olrhain cynnydd disgyblion.

109 Mae'r gwaith hwn hefyd yn helpu gwella trefniadau ar gyfer disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.

110 Yn yr arfer orau, mae staff ysgolion cynradd ac uwchradd:

- yn cynllunio cynlluniau gwaith cyffredin mewn Cymraeg a Saesneg ar gyfer disgyblion 7-14 oed;
- yn rhannu gwybodaeth am gyflawniadau ac anghenion dysgu blaenorol disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu;
- yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu anelu addysgu at y lefel gywir a sicrhau bod y gwaith ar gyfer disgyblion yn ymestynnol ac yn heriol;
- yn cydnabod pwysigrwydd parhad wrth ddefnyddio dulliau addysgu a ffurfiau o drefniadaeth ystafell ddosbarth ar gyfer dysgu; ac
- yn sicrhau bod medrau darllen ac ysgrifennu yn cael eu haddysgu'n gyson ym mhob maes dysgu ar draws yr ysgol.

111 Mae astudiaethau achos 15 ac 16 yn Atodiad 1 yn darparu enghreifftiau o'r modd y mae dwy ysgol wedi gwella'r broses o drosglwyddo disgyblion fel hyn.

112 Mae hyd yn oed ysgolion gwell yn aml yn hepgor agweddau pwysig ar drefniadau trosglwyddo. Yn benodol, nid yw staff yn rhannu digon o dystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft, cofnodion darllen disgyblion a'r darnau gorau o waith ysgrifenedig estynedig disgyblion, sy'n darparu man cychwyn sicr ar gyfer gwaith mewn darllen ac ysgrifennu ym Mlwyddyn 7. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion abl ym Mlwyddyn 7 yn cael eu herio digon neu mae eu cynnydd yn rhy araf. Ar yr un pryd,

nid yw disgyblion llai abl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt bob tro i atgyfnerthu eu medrau darllen ac ysgrifennu oherwydd nad yw staff yn gwybod digon am eu hanghenion dysgu.

113 Ar draws llawer o ysgolion uwchradd, mae rhagdybiaethau ffug o hyd am gymhwysedd ac annibyniaeth disgyblion fel darllenwyr ac ysgrifenwyr erbyn iddynt symud i ysgolion uwchradd. Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn cael eu profi gormod ym Mlwyddyn 7 i ganfod gwybodaeth sydd fel arfer eisoes yn bodoli yn eu hysgol flaenorol. Mae hyn yn wastraff o amser gwerthfawr.

## Rheolaeth ac arweinyddiaeth

### Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

114 Mae rôl uwch arweinwyr ac uwch reolwyr yn hanfodol i wella safonau llythrennedd gan eu bod yn gallu sicrhau ymrwymiad ysgol gyfan i'r gwaith. Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn yn cynnwys arwain mentrau llythrennedd.

115 Mae arbenigedd ac arweinyddiaeth staff â rolau cyfrifoldeb, fel yr arweinwyr pwnc Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd, penaethiaid yr adrannau Cymraeg a Saesneg yn ogystal â chydlynydd llythrennedd ysgol mewn ysgolion uwchradd, wedi cyfrannu'n sylweddol hefyd at ddysgu ac addysgu Cymraeg a Saesneg yn effeithiol.

116 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn gwneud llythrennedd yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac yn monitro safonau darllen ac ysgrifennu'n fwy trwyadl a chyson na'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd. Er bod strategaethau llythrennedd mewn ysgolion uwchradd yn well nag yr oeddent, ym mhob ysgol ond ychydig nid ydynt wedi cael yr un effaith ar safonau ag y cawsant mewn ysgolion cynradd. Mae astudiaethau achos 17 ac 18 yn Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o arweinyddiaeth lwyddiannus er mwyn codi safonau.

117 Mae llawer o ysgolion yn adolygu a samplu gwaith disgyblion i'w helpu i arfarnu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif sy'n arfarnu effaith eu mentrau llythrennedd yn ddigon trwyadl ac yn cynllunio ar gyfer gwelliant pellach. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn arfarnu'n rheolaidd nac yn systematig effaith newidiadau mewn dulliau addysgu ar safonau neu ansawdd gwaith disgyblion mewn ffordd a fyddai'n eu helpu i ddefnyddio'r canfyddiadau i wneud gwelliannau pellach a lledaenu arfer da yn ehangach.

118 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd, mae safonau darllen fel arfer yn uwch na safonau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid pob ysgol sy'n sicrhau bod ei chynlluniau gwella'n targedu sylw a chymorth lle bo'u hangen fwyaf. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, darllen a fu'r flaenoriaeth fwyaf ar gyfer gwelliant mewn cynlluniau ysgol. Mae ysgrifennu wedi cael llawer llai o sylw er gwaethaf safonau ysgrifennu is mewn llawer o ysgolion.

119 Mae angen i bob ysgol:

- dargedu mentrau ar gyfer gwelliant at yr agweddau gwannach ar Gymraeg a Saesneg sy'n amlwg yn yr ysgol; a
- chanolbwyntio ar y grwpiau o ddisgyblion ac unigolion, gan gynnwys bechgyn, sy'n gwneud y cynnydd lleiaf o ran datblygu eu medrau darllen neu ysgrifennu.

120 Mae angen i ddysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu fod cystal ag y gallant fod er mwyn i ddisgyblion mewn ysgolion ledled Cymru gyflawni safonau uwch.

## Gwaith awdurdodau lleol

121 Mae gan awdurdodau lleol rôl strategol allweddol i sicrhau bod ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion a rhoi cymorth ac adnoddau sy'n eu galluogi i wneud hynny. Mae gan bob awdurdod strategaeth lythrennedd ond mae ansawdd y strategaethau hyn a chynllunio tymor hir yn amrywio'n ormodol, yn benodol o ran gwella safonau yng nghyfnod allweddol 3.

122 Mae awdurdodau lleol yn bodloni eu rôl orau pan mae'r canlynol yn digwydd:

- mae strategaeth lythrennedd awdurdod cyfan ddatblygedig i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion sy'n cynnwys, yn benodol, y camau y bydd yr awdurdod ac ysgolion yn eu cymryd i wella addysgu a safonau darllen ac ysgrifennu;
- mae cynllun gwella tymor hir clir yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o dueddiadau a pherfformiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd unigol;
- mae adnoddau o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft, o'r awdurdod, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Sgiliau Sylfaenol Cymru, yn cael eu cydweddu'n ofalus i wella darllen ac ysgrifennu lle bo angen gwella safonau fwyaf;
- mae ystod dda o arweiniad a deunyddiau enghreifftiol ar gyfer addysgu ac asesu darllen ac ysgrifennu;
- mae arbenigwyr ar gael i ysgolion sy'n gallu darparu hyfforddiant a chymorth i'w helpu i wella'r ffordd y caiff darllen ac ysgrifennu eu haddysgu;
- mae cymorth i asesu a safoni darllen ac ysgrifennu fel bod staff yn asesu'n gyson, yn benodol ar draws blynyddoedd 6 a 7; ac
- mae monitro aml ac arfarnu trwyadl i sicrhau bod dysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallant fod.

123 Mae astudiaeth achos 19 yn Atodiad 1 yn dangos sut mae cynllun tymor hir clir iawn mewn un awdurdod lleol wedi arwain at safonau uchel cyson o lythrennedd yng nghyfnod allweddol 1 a 2 ac wedi gwella safonau yng nghyfnod allweddol 3.

124 Mae pob awdurdod lleol yn ceisio darparu amrywiaeth o gymorth ar gyfer llythrennedd. Mae rhai awdurdodau'n gwneud hyn yn well nag eraill gan fod ganddynt gynghorwyr dynodedig neu gan eu bod yn rhan o gonsortiwm neu sefydliad sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar draws nifer o awdurdodau lleol. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae cefnogaeth dda ar gyfer darllen yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 sy'n adeiladu ar ddatblygu medrau darllen cynnar. Yn aml, mae llai o gefnogaeth ar gyfer ysgrifennu, yn benodol yng nghyfnod allweddol 3 a phan fydd disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae llawer iawn o anghysondeb ar draws awdurdodau o ran y gefnogaeth arbenigol y mae awdurdodau'n ei rhoi i helpu staff wella darllen ac ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3.

125 Mae pob awdurdod lleol yn defnyddio data perfformiad, canlyniadau arolygu a thystiolaeth arall yn dda i arfarnu perfformiad ysgolion, yn benodol mewn Saesneg a Chymraeg fel pynciau craidd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw

pob awdurdod yn dadansoddi data penodol am ddarllen ac ysgrifennu, nac yn gwneud hynny'n ddigon manwl, i nodi'r ysgolion y mae angen gwelliant arnynt fwyaf yn yr agweddau allweddol hyn ar lythrennedd.

126 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi rhoi llawer o sylw i gefnogi ysgolion i ddeall a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng cyflawniad bechgyn a merched mewn llythrennedd. Ychydig o awdurdodau sydd wedi rhoi cymaint o sylw i wella medrau llythrennedd grwpiau eraill sydd yn y perygl mwyaf o dangyflawni, gan gynnwys disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion a rhai dysgwyr lleiafrifoedd ethnig. Er bod rhai mentrau da i gymell disgyblion mwy galluog a thalentog, prin yw'r awdurdodau lleol sydd â ffyrdd o fesur effaith eu polisïau ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog.

## Atodiad 1: Astudiaethau achos sy'n amlygu arfer orau o ran gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3

### Cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cymraeg a Saesneg

**Astudiaeth achos 1**

**Cefndir**
Ar ôl archwilio sut yr oedd staff yn addysgu Saesneg mewn ysgol iau, nododd yr arweinydd pwnc y gallai disgyblion ym Mlwyddyn 6 gyflawni safonau uwch pe byddai'r gwaith yn dod yn raddol galetach yn gynharach.

**Strategaeth**
Diwygiodd yr ysgol ei chynllun gwaith i wella dilyniant. Mae'r cynllun gwaith newydd yn nodi amcanion, medrau, gweithgareddau a thestunau mewn siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu ar gyfer pob grŵp oedran. Mae'r cynllun gwaith yn llywio cynllunio tymhorol, wythnosol a chynllunio gwersi. Mae disgyblion yn canolbwyntio ar ddatblygu eu dealltwriaeth o iaith ar lefel testun cyfan, brawddeg a gair yn fwy cynyddol nag o'r blaen.

**Canlyniad**
Mae staff yn gallu cynllunio gwaith caletach ym Mlwyddyn 6 gan fod pob disgybl wedi datblygu ystod dda iawn o fedrau darllen ac ysgrifennu estynedig uwch erbyn diwedd Blwyddyn 5.

**Astudiaeth achos 2**

**Cefndir**
Mewn un ysgol uwchradd, roedd staff eisiau sicrhau eu bod yn rhoi sylw da i astudio barddoniaeth. Maent yn gwybod bod barddoniaeth yn cynyddu dealltwriaeth disgyblion o iaith gan ei bod yn aml yn cael ei hysgrifennu ag angerdd ac iaith gynnil i greu effaith.

**Strategaeth**
Adolygodd y staff eu gwaith cynllunio yn gyntaf i bennu faint o sylw a roddwyd i farddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3. Roeddent yn falch o weld bod barddoniaeth yn cael ei chynnwys yn y gwaith ond cydnabuwyd y gallai chwarae rhan amlycach, a fyddai'n cynyddu dealltwriaeth disgyblion o iaith. Roeddent eisiau defnyddio barddoniaeth yn fwy i ganolbwyntio sylw disgyblion ar dechneg ysgrifennu a'i heffaith ar y darllenydd. Penderfynwyd defnyddio cerddi mwy heriol a diddorol o wahanol gyfnodau hanesyddol a threfnu bod disgyblion yn gweithio gyda beirdd sy'n ymweld â'r ysgol.

**Canlyniad**
Erbyn hyn, mae'r adran yn rhoi mwy o flaenoriaeth i farddoniaeth ac mae testunau mwy heriol wedi ysgogi disgyblion i ddadansoddi'n graffach a chwilio am ystyr. Mae disgyblion yn dysgu medrau y maent yn eu trosglwyddo i ddarnau hwy o ysgrifennu mewn genres eraill. O ganlyniad, mae safon gwaith ysgrifenedig disgyblion yn dda iawn wir.

**Cynllunio ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu disgyblion ar draws y cwricwlwm**

**Astudiaeth achos 3**

**Cefndir**

Mewn un ysgol uwchradd Gymraeg, roedd y staff yn credu y byddai llawer o ddisgyblion nad Cymraeg yw eu hiaith gyntaf yn elwa ar gymorth ychwanegol i ddatblygu eu geirfa Gymraeg mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

**Strategaeth**

Penderfynodd y staff y byddent yn cynhyrchu llawlyfr llythrennedd dwyieithog maint poced i ddisgyblion a rhieni.

Mae adran gyntaf y llawlyfr yn cynnwys rhestr o'r holl eirfa arbenigol ar gyfer pob pwnc, sy'n ddefnyddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 i Flwyddyn 9. Mae'r adran hon yn cynnig y term Cymraeg, cyfieithiad Saesneg ac wedyn y diffiniad neu eglurhad yn Gymraeg ar gyfer **pob pwnc** yn y cwricwlwm.

Mae'r ail adran yn egluro'r ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio symbolau i farcio gwaith disgyblion. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys cyngor defnyddiol am sut i ysgrifennu'r dyddiad yn Gymraeg, yr wyddor, llafariaid, cytseiniaid ac atalnodi a rheolau gramadeg defnyddiol.

Mae'r drydedd adran yn egluro'r derminoleg Gymraeg a ddefnyddir mewn arholiadau cyhoeddus yn fanwl, sy'n helpu disgyblion i ddeall Cymraeg safonol yn dda. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi enghreifftiau o wallau Cymraeg cyffredin mewn ysgrifennu a fersiwn gywir y ffurfiau hyn.

Mae'r bedwaredd adran yn cynnwys enghreifftiau o wahanol fframiau ysgrifennu, y gellir eu defnyddio i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau, fel cynhyrchu adroddiad cronolegol neu drefnu cyfarwyddiadau ar gyfer gwneud modelau mewn dylunio a thechnoleg.

Mae'r adran olaf yn canolbwyntio ar gynnwys gwaith sy'n cael ei astudio yn ystod cyfnod allweddol 3 a'r asesiadau y mae disgyblion yn eu gwneud. Mae pob adran bwnc yn yr ysgol yn cyfrannu arweiniad defnyddiol ar ddisgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Canlyniad**

Bu'r llawlyfr llythrennedd yn amhrisiadwy i ddisgyblion a rhieni nad Cymraeg yw eu hiaith gyntaf. Mae disgyblion yn defnyddio'r llawlyfr yn rheolaidd yn eu hastudiaethau pwnc ac mae hyn wedi gwella cywirdeb eu sillafu a'u terminoleg. Mae rhieni'n cael gwybod yn well am y gwaith a wna disgyblion yn eu hastudiaethau ar draws y cwricwlwm.

**Astudiaeth achos 4**

**Cefndir**
Mewn un ysgol uwchradd, penderfynodd y staff fod angen iddynt ddatblygu ffocws cryfach ar fedrau cyfathrebu disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol ym Mlwyddyn 7.

**Strategaeth**
Gyda'i gilydd, cynlluniodd penaethiaid adran ymagwedd a fyddai'n apelio at ddiddordebau disgyblion. Aethant ati i drefnu wythnos o weithgareddau amgen a ddatblygwyd o amgylch thema o gyfres o lyfrau poblogaidd i blant a galw'r prosiect yn 'Bishwarts'. Roedd y rhaglen cwricwlwm amgen hon yn ysgogi diddordeb a chyffro disgyblion ac, ar yr un pryd, yn rhoi cyfleoedd i'r holl staff gymryd rhan mewn dylunio a chyflawni gweithgareddau a oedd yn hyrwyddo medrau cyfathrebu. Roedd y gwaith hwn yn atgyfnerthu negeseuon am gyfraniad pwysig astudiaethau pwnc at ddatblygu'r medrau hyn.

**Canlyniad**
Ar ddiwedd y rhaglen, roedd gan y staff a'r disgyblion well gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am fedrau cyfathrebu. Yn ogystal, roedd y staff wedi elwa ar gydweithio i gyflawni rhaglen lwyddiannus â thema, y gellid ei hymestyn ar draws yr ysgol.

**Asesu Cymraeg a Saesneg**

**Astudiaeth achos 5**

**Cefndir**
Penderfynodd un ysgol gynradd gynnwys disgyblion yn fwy wrth asesu eu gwaith i'w helpu i ysgrifennu'n fwy annibynnol a hyderus.

**Strategaeth**
Lluniodd y staff fframwaith hunanasesu ac addasu'r fframweithiau hyn yn ôl oedran a gallu disgyblion. Mae gan bob disgybl ei fframwaith ei hun, sy'n nodi nodweddion ysgrifennu allweddol y dylid eu cynnwys yng ngwaith y disgybl. Er enghraifft, mae gofyn i ddisgyblion iau ystyried a ydynt wedi defnyddio priflythrennau ar ddechrau brawddegau a gorffen brawddegau ag atalnod llawn. Mae gofyn i ddisgyblion hŷn arfarnu technegau a ddefnyddir ar gyfer gwahanol genres, fel y nodweddion newyddiadurol maent yn eu defnyddio wrth ysgrifennu adroddiadau papur newydd. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut y dylid defnyddio'r fframweithiau hyn.

**Canlyniad**
Mae disgyblion yn fwy deallus bellach am ansawdd eu gwaith. Er enghraifft, maent yn fwy ymwybodol fod angen iddynt wella eu mynegiant a'u cywirdeb wrth ysgrifennu a mynegi. Pan fydd gwaith ysgrifenedig yn cael ei farcio a bod yr athro'n nodi camgymeriadau sillafu, mae'n rhaid i ddisgyblion geisio sillafu'r gair yn annibynnol cyn i'r athro roi'r fersiwn gywir.

**Astudiaeth achos 6**

**Cefndir**
Mewn un ysgol uwchradd Gymraeg, penderfynodd staff fod angen iddynt gynnig mwy o amrywiaeth o adnoddau i gefnogi ysgrifennu disgyblion.

**Strategaeth**
Roedd staff eisoes yn darparu amrywiaeth o adnoddau masnachol i ddisgyblion, gan gynnwys geiriaduron, llyfrau gramadeg a thesawrysau Cymraeg. Ychwanegwyd amrywiaeth o ddeunyddiau eraill at yr adnoddau hyn, fel cerdyn treigliadau ar gyfer sillafu a geirfa a bwrdd barddoniaeth i helpu disgyblion i adnabod enwau gwrywaidd a benywaidd i ddisgrifio mesurau ac odlau mewn barddoniaeth Gymraeg. Datblygodd staff ganllaw hefyd i roi amrywiaeth o strategaethau i ddisgyblion ddisgrifio cymeriadau, lleoliadau, themâu a gweithredoedd mewn nofel. Mae Nabod Nofel yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn i ddisgyblion ystyried iaith, gwisg, personoliaeth, agweddau, golwg gorfforol a nodweddion eraill y cymeriad. Mae'r canllaw'n cynnig amrywiaeth dda o ansoddeiriau i ddisgrifio cymeriadau.

**Canlyniad**
Mae disgyblion yn defnyddio'r adnoddau'n annibynnol i wirio sillafiadau, geirfa, patrymau iaith a threigladau yn ystod eu gwaith. Mae hyn wedi gwella gwaith ysgrifenedig disgyblion a'u medrau dysgu annibynnol gan eu bod yn gallu gwirio cywirdeb eu gwaith eu hunain.

**Mynd i'r afael â thangyflawniad bechgyn**

**Astudiaeth achos 7**

**Cefndir**
Cydnabu un ysgol gynradd â chyfran uchel iawn o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol rhad ac am ddim fod gan bechgyn drwy'r ysgol gyfan ddatblygiad iaith mwy cyfyngedig a'u bod yn aml yn llai aeddfed a hyderus na merched.

**Strategaeth**
Cydweithiodd y staff i wneud nifer o newidiadau i'r ffordd y dysgwyd ac addysgwyd llythrennedd. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:

- defnyddio ymchwil ddiweddar i ddylanwadu ar eu dulliau addysgu a gwella cynnwys gwaith i'w wneud yn fwy diddorol i fechgyn a merched a helpu pob disgybl i lwyddo;
- defnyddio gwaith llafar a gwaith grŵp yn well i ymarfer a chynorthwyo dysgu;
- defnyddio gwobrau ac anogaeth yn fwy i hybu hyder a hunan-barch;
- datblygu rhaglen ddwys tynnu nôl i ddisgyblion ar ddechrau cyfnod allweddol 2 sydd y tu ôl i'w cyfoedion er mwyn iddynt ddal i fyny'n gyflym;
- newid cynllunio cwricwlwm i gynnwys mwy o amser ar ffoneg, er enghraifft, ym mlynyddoedd 4 a 5, canolbwyntio ar rannu geiriau amlsillafog yn 'dalpau' i ddadgodio ac amgodio fel bod disgyblion yn dysgu – sain gywir, gwahanol lun sain' yn eu darllen a 'sain gywir, llun sain anghywir' yn eu hysgrifennu; a
- gwella darpariaeth llyfrgell fel bod adnoddau symbylol o safon ar gael yn well i bob disgybl bellach ar lefel briodol i danio brwdfrydedd darllenwyr gwael, yn benodol bechgyn.

**Canlyniad**
Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae cyflawniad bechgyn wedi gwella'n sylweddol ac nid oes llawer o wahaniaeth dirnadwy rhwng perfformiad bechgyn a merched.

**Bodloni anghenion disgyblion llai galluog**

**Astudiaeth achos 8**

**Cefndir**
Roedd staff mewn un ysgol gynradd Gymraeg yn teimlo nad oedd disgyblion llai galluog yn gwneud digon o gynnydd mewn darllen ac ysgrifennu a bod angen iddynt wneud mwy i'w cefnogi i ennill y medrau hyn.

**Strategaeth**
Fe wnaethant benderfynu cynnal cyfarfodydd staff wythnosol i drafod cynnydd disgyblion ag anawsterau dysgu. Yn y cyfarfodydd hyn, mae staff yn rhannu gwybodaeth am y disgyblion hyn, yn ystyried strategaethau ac yn awgrymu atebion. Er enghraifft, mewn rhai achosion, gallai'r ffordd ymlaen gynnwys newid grwpiau ar gyfer llythrennedd, diwygiadau i gynllunio'r cwricwlwm neu gyfeirio at asiantaethau allanol. Mae'r ysgol yn cydnabod y gellir datrys rhai anawsterau yn y tymor byr ac yn gweithredu'n gyflym yn yr amgylchiadau hyn er lles disgyblion. Os oes heriau mwy oherwydd anawsterau mwy difrifol disgyblion mewn llythrennedd, mae staff yn pennu strategaeth glir i helpu'r disgyblion hyn i wneud cynnydd.

**Canlyniad**
Mae'r ysgol wedi datblygu ymagwedd lawer mwy cydlynol a systematig i nodi a chefnogi disgyblion ag anawsterau llythrennedd. Gan fod anawsterau a chynnydd dysgu disgyblion yn cael eu hadolygu yn rheolaidd iawn, mae eu hanawsterau'n aml yn cael sylw'n gyflymach. Datblygir strategaethau i gefnogi dysgu disgyblion drwy ddefnyddio arbenigedd yr holl staff a defnyddir asiantaethau cefnogi'n dda i helpu'r ysgol i ymateb i anawsterau disgyblion.

**Astudiaeth achos 9**

**Cefndir**
Roedd un ysgol uwchradd eisiau datblygu rhaglen lythrennedd i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 nad oedd eu cyflawniad yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Roeddent yn gwybod mai'r disgyblion hyn oedd y rhai mwyaf tebygol o lithro y tu ôl ymhellach yng nghyfnod allweddol 3.

**Strategaeth**
Caiff disgyblion eu haddysgu mewn grwpiau bach ar gyfer un wers bob wythnos. Mae gwaith yn cynnwys darllen, sillafu a defnyddio geirfa mewn grŵp, darllen i gael gwybodaeth, medrau darllen uwch a gwaith ysgrifennu ar lefel gair a brawddeg. Un nodwedd benodol o dda yw cydweddiad agos y gwaith ag anghenion unigol disgyblion. Mae gan bob rhaglen amcanion a thargedau dysgu clir. Mae'r amser a gaiff disgyblion ar y rhaglen yn lleihau'n synhwyrol wrth iddynt wneud cynnydd. Mae'r holl staff yn yr ysgol yn gyfarwydd â chynnwys y rhaglen cefnogi llythrennedd hon ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu disgyblion yn eu hastudiaethau pwnc ar draws y cwricwlwm.

**Canlyniad**
Mae'r rhaglen yn helpu sicrhau medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ac yn rhoi gwell mynediad iddynt at eu hastudiaethau pwnc. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, llwyddodd yr holl ddisgyblion bron ar y rhaglen hon i gyflawni'r lefel a ddisgwylir yn genedlaethol gan bobl ifanc 14 oed erbyn diwedd cyfnod allweddol 3.

**Astudiaeth achos 10**

**Cefndir**
Mewn un ysgol uwchradd canolig ei maint, cyflwynodd staff raglen ymyrryd llythrennedd arloesol ym Mlwyddyn 9 i roi'r cyfle i ddisgyblion ddal i fyny a chyfnerthu medrau darllen ac ysgrifennu cyn TGAU. Mae'r rhaglen yn targedu disgyblion sy'n fwyaf tebygol o dangyflawni yng nghyfnod allweddol 4.

**Strategaeth**
Cynigir y rhaglen i ddisgyblion yn ddewis o amrywiaeth o ragflasau pwnc cyn TGAU. Fel arfer, mae rhyw 60 o ddisgyblion o garfan o ryw 200 yn dewis gwneud y rhaglen. Dyma nifer anhygoel o ystyried apêl y dewisiadau eraill i ddisgyblion.

Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn grwpiau bach o ryw 10 am ddwy awr yr wythnos. Mae'r cwrs yn cyflenwi gwaith Saesneg ac yn canolbwyntio ar fedrau darllen uwch a threfnu syniadau, hyd a chywirdeb wrth ysgrifennu. Er bod y rhaglen ymyrryd yn ddrud i'w chynnal gan fod angen 12 o wersi 'athro' yr wythnos arni, mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r buddsoddiad hwn oherwydd caiff disgyblion llai galluog eu galluogi i wneud yn dda mewn amrywiaeth o bynciau TGAU.

**Canlyniad**
Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol hon heb gymhwyster.

**Bodloni anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog**

**Astudiaeth achos 11**

**Cefndir**
Cydnabu adran iau mewn un ysgol gynradd y byddai disgyblion mwy galluog yn elwa ar ddarpariaeth arbenigol i ymestyn eu dysgu.

**Strategaeth**
Mae disgyblion mwy galluog o bob grŵp blwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 yn mynychu dosbarth 'Rhagoriaeth' am hanner awr bob wythnos i archwilio testunau darllen heriol, gan gynnwys Shakespeare.

**Canlyniad**
Mae'r dosbarth 'Rhagoriaeth' yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu medrau dadansoddi a meddwl beirniadol uwch. Mae eu gwaith yn aeddfed a sylwgar. Mae'r gwaith a wneir yn y dosbarth hwn wedi ysbrydoli disgyblion i estyn amrywiaeth eu darllen personol eu hunain.

**Astudiaeth achos 12**

**Cefndir**
Mewn un ysgol uwchradd, roedd staff wedi nodi tua 30 o ddisgyblion mwy galluog a thalentog yng nghyfnod allweddol 3.

**Strategaeth**
Penderfynodd yr adran Saesneg ffurfio grŵp i ddisgyblion mwy galluog a thalentog. Mae'r grŵp, sy'n cynnwys niferoedd tebyg o fechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3, yn cyfarfod â'r pennaeth adran bob wythnos. Mae disgyblion yn cael rhestr ddarllen heriol iawn i arwain eu darllen personol ac mae tua hanner y grŵp hwn yn mynychu gweithdai ysgrifennu yn Nhŷ Newydd, Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru yng ngogledd Cymru, i weithio gydag ysgrifenwyr proffesiynol. Mae'r disgyblion hyn wedi ffurfio clwb ysgrifennu ac maent yn e-bostio eu gwaith at ei gilydd. Maent yn cyfarfod i drafod eu darllen a'u hysgrifennu ac yn argymell llyfrau i'w gilydd.

**Canlyniad**
Llwyddodd disgyblion Blwyddyn 8 o'r grŵp hwn i gyrraedd rownd derfynol Cwis Llenyddiaeth y Byd. Y nhw oedd yr unig ddisgyblion o ysgol a gynhelir yng Nghymru a wnaeth hynny.

**Bodloni anghenion disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt**

**Astudiaeth achos 13**

**Cefndir**
Mewn un ysgol uwchradd fawr, mae dros 50 o ddisgyblion â SIY yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r pennaeth cymorth dysgu yn defnyddio model caffael iaith a rhannwyd yn ofalus yn gamau i asesu gallu ieithyddol disgyblion mewn Saesneg pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol. Mae ysgolion cynradd partner yn defnyddio model asesu tebyg ac yn trosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion â SIY pan fyddant yn newid ysgolion. Mae pum cam caffael iaith ym mhob un o'r haenau canlynol:

- siarad a gwrando;
- cael gwybodaeth;
- darllen a deall; ac
- ysgrifennu.

**Strategaeth**
Caiff asesiad cychwynnol o bob disgybl ei ddefnyddio i gynllunio gwaith ar lefel briodol mewn iaith ac ym mhob pwnc arall. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn rhoi gwaelodlin i fesur datblygiad iaith disgyblion bob hanner tymor. Caiff staff arweiniad ar gyfer pob un o'r pum haen mewn sut i ddatblygu amrywiaeth o fedrau, er enghraifft, mewn darllen – medrau darllen cychwynnol, rhuglder, mynegiant, dealltwriaeth a chael ystyr, ac, mewn ysgrifennu – sillafu, geirfa, rhuglder, atalnodi, arddulliau ysgrifennu, defnyddio iaith a threfn.

**Canlyniad**
Drwy'r ysgol gyfan, mae'r holl staff yn deall y gwahanol gyfnodau caffael iaith, sy'n eu helpu i gefnogi disgyblion. Mae disgyblion sy'n gwneud llai o gynnydd nag eraill yn cael cymorth ychwanegol i ddal i fyny â'u cyfoedion. O ganlyniad, mae disgyblion â SIY yn gwneud cynnydd da ac yn symud ymlaen i ennill ystod o gymwysterau yng nghyfnod allweddol 4.

**Defnyddio'r llyfrgell ysgol yn effeithiol**

**Astudiaeth achos 14**

**Cefndir**
Mewn un ysgol uwchradd sy'n perfformio'n dda, caiff pob disgybl ym Mlwyddyn 7 ei annog i ddarllen ystod amrywiol a heriol o lyfrau, gan roi cynnig ar awduron a genres newydd a oedd yn anghyfarwydd iddynt o'r blaen.

**Strategaeth**
Mae grŵp darllen (gwirfoddol ac agored i bawb) yn cyfarfod yn rheolaidd yn llyfrgell yr ysgol. Mae aelodau'r grŵp darllen yn cael tystysgrif 'darllenwr campus' a gwobr fechan. Mae tocyn llyfrau i'r disgybl sydd wedi darllen yr amrywiaeth ehangaf a mwyaf heriol o lyfrau ac wedi dangos 'awch' am ddarllen.

**Canlyniad**
Mae'r grŵp darllen yn boblogaidd iawn ac mae'r gwaith hwn wedi creu cymuned ysgol o ddarllenwyr sy'n mwynhau siarad am lyfrau. Mae eu darllen ehangach wedi gwella ansawdd ysgrifennu disgyblion a dylanwadu arno.

**Gwella pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd**

**Astudiaeth achos 15**

**Cefndir**
Roedd pennaeth adran Saesneg un ysgol uwchradd eisiau gwella parhad a dilyniant mewn cynllunio'r cwricwlwm rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Roedd hi'n gwybod bod yr holl ysgolion cynradd partner yn defnyddio'r un cynllun gwaith a gynhyrchwyd gan yr awdurdod lleol.

**Strategaeth**
Cytunodd y staff i gynllunio'r cwricwlwm cyfnod allweddol 3 i'r un fformat â'r cynllun gwaith cynradd. Trefnwyd y gwaith cynllunio hwn o amgylch saith gwahanol fath o destun ac roedd yn cynnwys gwaith ar lefelau testun, brawddeg a gair.

**Canlyniad**
Drwy dynnu ar y gwaith y bu disgyblion yn ei astudio yng nghyfnod allweddol 2, sicrhaodd y pennaeth adran well parhad yn nysgu disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Yn yr ysgol uwchradd, datblygodd athrawon Saesneg ddealltwriaeth graffach o'r amrywiaeth o destunau y bu disgyblion yn eu hastudio yng nghyfnod allweddol 2, er enghraifft, gwaith Shakespeare. Wedyn cyflwynodd yr adran destunau sy'n fwy heriol yn gynharach. O ganlyniad, mae trawsnewid disgyblion mewn llythrennedd o gyfnod allweddol 2 i 3 yn dda iawn ac maent yn gwneud gwaith sy'n raddol galetach. Mae'r ymagwedd hon yn helpu disgyblion i gyflawni safonau uwch.

**Astudiaeth achos 16**

**Cefndir**
Mewn un ysgol gynradd fawr, mae arweinwyr pwnc wedi dynodi amser i fonitro safonau gwaith disgyblion. Mae'r arweinydd pwnc Saesneg yn cael un diwrnod bob tymor.

**Strategaeth**
Mae staff bob amser yn cytuno ar ffocws ar gyfer y gwaith monitro hwn. Gall y ffocws hwn fod yn gysylltiedig â tharged ysgol gyfan neu faes penodol y nodwyd bod angen sylw arno. Mae gwaith monitro diweddar mewn llythrennedd wedi canolbwyntio ar:

- ddilyniant mewn sillafu;
- gwrando ar ddysgwyr i gael eu barnau am wersi llythrennedd; a
- strwythur gwersi ac addysgu medrau llythrennedd yn benodol.

**Canlyniad**
Mae'r arweinydd pwnc yn nodi'r canfyddiadau ac yn rhannu'r rhain gyda'r pennaeth a staff bob tymor. Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae'r ysgol yn cael diwrnod hyfforddi i ddatblygu cynllun gwella newydd yr ysgol ac mae arfarniadau pob arweinydd pwnc yn helpu i benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cyn i hyn ddigwydd, mae staff yn cynnal hunanasesiad unigol. Caiff canlyniadau'r asesiad hwn eu dadansoddi i nodi themâu cyffredin a materion hyfforddiant y gall fod angen eu cynnwys yn y cynllun gwella ysgol.

**Arwain a rheoli gwelliannau**

**Astudiaeth achos 17**

**Cefndir**
Mewn un ysgol gynradd Gymraeg, mae'r pennaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau llythrennedd mewn Cymraeg a Saesneg yn y cynllun gwella ysgol, cyfarfodydd staff a hunanarfarniad blynyddol yr ysgol. Mae'n sicrhau bod arweinwyr pwnc mewn Cymraeg a Saesneg yn cael amser digyswllt rheolaidd wedi'i amserlennu ar gyfer cynllunio a monitro cynnydd yn ofalus drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth ac archwilio gwaith disgyblion yn rheolaidd.

Mae'r ysgol wedi nodi bod medrau llafar yn y ddwy iaith a sillafu yn Saesneg yn flaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

**Strategaeth**
Bu'r ysgol yn datblygu medrau llafar dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae wedi canolbwyntio ar siarad yn y cyfnod sylfaen yn gyntaf fel bod disgyblion yn siaradwyr mwy hyderus erbyn Blwyddyn 3. Nodwyd bod sillafu mewn Saesneg yn her fawr ac mae'r ysgol yn rhoi sylw penodol i ddefnyddio ymagwedd ffoneg at ddarllen a sillafu pan fydd disgyblion yn dechrau dysgu Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3.

Cafodd staff dysgu cymwysedig iawn, gan gynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu, hyfforddiant pellach mewn datblygu medrau llafar ac ymwybyddiaeth ffoneg disgyblion.  I gefnogi eu gwaith, defnyddiodd yr ysgol ei grant Rhagori yn dda i gyflogi aelod ychwanegol o staff.  Mae'r cynorthwyydd cymorth hwn yn gweithio un ac un gyda nifer fechan o ddisgyblion y mae angen lefel ddwys o gefnogaeth arnynt, yn ogystal â grwpiau bach o ddisgyblion y mae angen iddynt wella agweddau penodol ar ddarllen ac ysgrifennu.

**Canlyniad**
Mae safonau mewn Saesneg a Chymraeg yn dda ac yn gwella.  Mae disgyblion yn siarad yn glir ac yn defnyddio geirfa dda yn y ddwy iaith yn hyderus.  Mae sillafu'n gwella gan fod yr holl staff yn dilyn strategaethau ysgol gyfan datblygedig.

**Astudiaeth achos 18**

**Cefndir**
Mewn un ysgol uwchradd lle mae safonau darllen ac ysgrifennu'n arbennig o dda, mae llythrennedd yn flaenoriaeth ysgol gyfan.  Mae'r pennaeth yn ysgogi'r agenda'n gryf.  Mae'r cydlynydd llythrennedd yn arwain datblygiadau mewn llythrennedd drwy'r ysgol gyfan, yn cydlynu mentrau llythrennedd ac yn rhoi cymorth i adrannau a staff unigol wrth addysgu medrau darllen ac ysgrifennu.  Dyma swydd barhaol yn strwythur staffio'r ysgol ac mae'r deiliad swydd yn gweithio'n agos gyda'r uwch dîm rheoli.  Mae ganddi amser yn ei hamserlen i gyflawni ei dyletswyddau.

**Strategaeth**
Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar y tri maes canlynol i godi safonau:

- gwaith llafar mewn gwersi;
- medrau meddwl gan gynnwys meddwl a siarad am destunau; ac
- ysgrifennu estynedig a defnyddio fframiau dysgu i sgaffaldu a ffurfio ysgrifennu.

Mae dau adolygiad ysgol mawr bob blwyddyn.  Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhain wedi cynnwys adolygiad o fedrau cyfathrebu a llefaredd mewn gwersi.

Mae pob un o 12 cynorthwyydd cymorth dysgu'r ysgol wedi cael hyfforddiant mewn addysgu darllen ac ysgrifennu ac mae cynorthwyydd cymorth arbenigol sy'n gweithio gyda disgyblion a nodir, gan gynnwys y rheini sy'n fwy galluog a thalentog, y tu mewn a'r tu allan i wersi Saesneg.  Mae cylchlythyr yr ysgol i rieni bob amser yn cynnwys eitem am ddarllen neu ysgrifennu ac mae rhieni'n cael arweiniad clir am sut y gallant helpu eu plant i ddatblygu'r medrau hyn gartref.

**Canlyniad**
Mae trefniadau wedi cael effaith sylweddol ar wella safonau darllen ac ysgrifennu, yn enwedig gyda disgyblion llai galluog.  Mae staff yn rhannu arfer dda, er enghraifft, defnyddio 'ffrâm wrando' i helpu disgyblion i gofnodi a strwythuro eu syniadau'n ysgrifenedig ac annog cyfraniadau llafar mwy estynedig, gan gynnwys cyfiawnhau atebion, i wella hyd a chynnwys gwaith ysgrifenedig.  Mae gwaith llafar ac ysgrifenedig disgyblion wedi gwella oherwydd ffocws llawer cryfach gan yr holl staff ar eirfa a chystrawen.

**Astudiaeth achos 19**

**Cefndir**
Mae gan un awdurdod lleol strategaeth llythrennedd tymor hir, clir iawn a weithredwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae aelodau etholedig wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol sylweddol i ddatblygu a chynnal safonau llythrennedd uchel. Mae'r cyllid hwn yn ei gwneud yn bosibl i ysgolion weithredu rhaglenni tymor hir i hybu gwelliant. Er enghraifft, mae wedi galluogi'r awdurdod i wella rhaglen gwella darllen ac ysgrifennu mewn ysgolion cynradd sydd, dros lawer o flynyddoedd, wedi cyflawni safonau eithriadol o uchel.

**Strategaeth**
Mae'r tîm cynghori llythrennedd profiadol iawn yn rhoi cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i ysgolion sy'n cynnwys:

- cymorth parhaus gan gynnwys gwersi arddangos, a rhannu addysgu a hyfforddi mewn rhyw 10 ysgol gynradd bob tymor;
- hyfforddiant a chymorth ar gyfer ystod dda o raglenni dal i fyny a chyflymu llythrennedd i ddisgyblion 6-14 oed sy'n tangyflawni ym mwyafrif helaeth ysgolion cynradd ac uwchradd yr awdurdod;
- cwrs hyfforddi wyth diwrnod ar gyfer cydlynwyr iaith ysgolion cynradd sy'n cynnwys modiwlau ar ddarllen cynnar, datblygu medrau darllen uwch yng nghyfnod allweddol 2, ysgrifennu cynnar, ymestyn medrau ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2, defnyddio drama yn yr ystafell ddosbarth, asesu, monitro ac arfarnu a rheoli pwnc;
- hyforddiant a chymorth ysgol rheolaidd ar gyfer rhwydweithiau sefydledig o staff sy'n chwarae rhan allweddol yn rhoi strategaeth lythrennedd yr awdurdod ar waith, gan gynnwys uwch reolwyr sy'n gyfrifol am lythrennedd mewn ysgolion uwchradd, penaethiaid ysgolion cynradd, cydlynwyr llythrennedd, penaethiaid adran ysgolion uwchradd ac arweinwyr pwnc ysgolion cynradd, tiwtoriaid cyflymu llythrennedd a chynorthwywyr cymorth dysgu.

Y ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant gwaith yr awdurdod yw defnyddio data'n benodol ar gyfer darllen ac ysgrifennu er mwyn targedu cymorth at ysgolion a grwpiau o ddisgyblion nad ydynt yn cyflawni'n dda. Mae ymchwil ofalus i fentrau llythrennedd llwyddiannus yn Ewrop a mannau eraill wedi llywio rhaglenni hyfforddi. Dros nifer o flynyddoedd, bu'r awdurdod hefyd yn gweithio'n systematig gyda rhwydweithiau o bersonél allweddol i roi mentrau ar waith.

**Canlyniad**
Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, bu canlyniadau mewn Saesneg yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn gyson yn dda iawn ac mae safonau yng nghyfnod allweddol 3 yn gwella. Mae staff cynghori'n rhoi cefnogaeth o safon i ysgolion, er enghraifft, wrth ddarparu hyfforddiant mewn addysgu medrau darllen ac ysgrifennu yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r awdurdod wedi nodi diffygion mewn ysgrifennu ac wedi rhoi blaenoriaeth i addysgu ac asesu ysgrifennu yn 2008.

## Atodiad 2: Cwestiynau i arweinwyr a rheolwyr eu defnyddio wrth adolygu a gwella arfer

Cynlluniwyd y cwestiynau yn yr adran hon i helpu ysgolion i adolygu meysydd o'u gwaith mewn Cymraeg a Saesneg ac i ddatblygu medrau cyfathrebu ym mhob pwnc er mwyn ysgogi gwelliant ymhellach.

**Cynllunio cwricwlwm ar gyfer Cymraeg a Saesneg**

- A yw dysgu ac addysgu llefaredd, darllen ac ysgrifennu'n cael eu hintegreiddio mewn cynllun gwaith o safon sy'n cynnwys amcanion addysgu clir, y wybodaeth, dealltwriaeth a medrau penodol y dylai disgyblion eu cael ar lefel testun, brawddeg a gair?

- A oes tasgau diddorol ac amrywiol a chanlyniadau dysgu penodol ar gyfer pob agwedd ar iaith?

- A yw gwaith cynllunio'n adeiladu ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn y cyfnod sylfaen ac yn galluogi disgyblion i ddatblygu medrau llythrennedd yn raddol drwy gyfnodau allweddol 2 a 3?

- A yw staff yn cynllunio ffyrdd o sicrhau bod disgyblion yn gwneud y cynnydd gorau posibl pan fyddant yn trosglwyddo o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3, o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 ac o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10?

- A ddaw tasgau a gweithgareddau darllen ac ysgrifennu'n fwyfwy heriol a chymhleth ac a ydynt yn galluogi disgyblion i ddatblygu a mireinio eu medrau llythrennedd?

- A roddir sylw da i ystod gyfoethog ac eang o destunau a chyfryngau llenyddol ac anllenyddol ar draws gwahanol genres a ffurfiau i ddatblygu darllen ac ysgrifennu i lefelau uchel?

- A yw gwaith cynllunio'n cyfeirio at ddeunyddiau darllen a thasgau ysgrifennu a fydd yn apelio at ddiddordebau bechgyn a merched gan gynnwys deunyddiau sy'n gysylltiedig â hobïau a chwaraeon ac ysgrifennu byw?

**Cynllunio ar gyfer darllen**

- A yw gwaith cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfnerthu ac yn datblygu ymhellach y medrau darllen y mae disgyblion wedi'u datblygu yng nghyfnod allweddol 1?

- A oes ffocws parhaus ar ffoneg yng nghyfnod allweddol 2, yn benodol mewn Saesneg, sy'n helpu sicrhau gwybodaeth disgyblion am iaith a'u gallu i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddadgodio geiriau?

- A yw gwaith yn annog ymateb personol disgyblion i ystod eang o destunau diddorol ac amrywiol mewn barddoniaeth, rhyddiaith a drama a thestunau anllenyddol a thestunau'r cyfryngau?

- A yw staff yn darparu rhestri a mentrau darllen sy'n annog disgyblion i ddarllen yn annibynnol ac archwilio ystod eang o lyfrau y tu hwnt i'w hoff awduron a mathau o destunau?

- A yw medrau darllen uwch disgyblion, gan gynnwys brasddarllen, sganio, rhesymu a dod i gasgliad yn cael eu datblygu'n raddol?

- A oes testunau mwy heriol yn raddol yng nghyfnod allweddol 3, sy'n adeiladu ar brofiad darllen blaenorol disgyblion ac yn ymestyn eu medrau darllen?

- A oes ffocws cryf ar ddeall ac amgyffred yr hyn y maent wedi'i ddarllen a chyfleoedd i ddisgyblion wirio eu tybiaethau mewn perthynas â'r testun?

- A roddir sylw da i ddatblygu medrau llyfrgell a medrau casglu gwybodaeth ac a yw staff yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio llyfrgelloedd ysgol a llyfrgelloedd cyhoeddus a'r rhyngrwyd er pleser ac ymchwil?

**Cynllunio ar gyfer ysgrifennu**

- A yw gwaith yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar y medrau ysgrifennu annibynnol y mae disgyblion wedi'u datblygu yng nghyfnod allweddol 1 ac yn eu hymestyn?

- A yw'r cynllun gwaith yn nodi'r ffurfiau ysgrifennu y bydd disgyblion yn eu datblygu yn raddol ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3?

- A yw gwaith cynllunio'n cynnwys ysgrifennu at wahanol ddibenion a gwahanol gynulleidfaoedd?

- A yw gwaith yn canolbwyntio ar nodweddion arddulliadol gwahanol fathau o ysgrifennu, gan gynnwys moddau ysgrifennu anffurfiol a ffurfiol?

- A gaiff y medrau y mae eu hangen ar ddisgyblion i fynegi a threfnu syniadau eu datblygu'n raddol, gan ddefnyddio gwahanol strwythurau brawddeg, paragraff a threfn testunau?

- A oes ffocws ar eiriau a'u hystyron fel bod disgyblion yn dysgu ymestyn eu geirfa a mynegi eu hunain â thrachywiredd cynyddol?

- A roddir sylw i strategaethau i helpu disgyblion i sillafu ac atalnodi'n gywir?

- A oes cyfleoedd i ddisgyblion siarad am eu hysgrifennu eu hunain ac eraill a deall sut y defnyddir iaith i greu effaith?

- A roddir sylw i gynllunio, drafftio, diwygio, prawfddarllen a gloywi darnau o waith ysgrifenedig, gan ddefnyddio TGCh pan fo'n briodol?

**Datblygu medrau cyfathrebu darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm**

- A yw gwaith yn cael ei arwain gan bolisi llythrennedd ysgol gyfan sy'n sicrhau cydlyniad ac sy'n rhoi cyfrifoldeb i bob aelod o staff am ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion?

- A yw'r agweddau penodol ar ddarllen ac ysgrifennu sydd i'w datblygu'n raddol drwy'r ysgol gyfan yn cael eu nodi'n glir fel bod staff yn gwybod pa fedrau i'w haddysgu a phryd?

- A yw datblygiad medrau darllen ac ysgrifennu'n cael ei ymgorffori'n gryf yng nghynlluniau gwaith a chynlluniau gwers bob pwnc?

- A oes cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu datblygol yn unol â natur y pwnc, fel cymhwyso eu medrau darllen ac ymchwilio uwch i'w hastudiaethau mewn hanes neu ddaearyddiaeth neu ysgrifennu ymchwiliadau mewn gwyddoniaeth?

- A yw'r holl staff yn gwybod galluoedd darllen gwahanol ddisgyblion, fel bod deunyddiau a thasgau darllen a gaiff eu hastudio mewn pynciau yn cael eu gosod ar y lefel gywir, o ran hyd a her?

- A yw staff yn addysgu ac yn egluro ystyr terminoleg pwnc?

- A yw staff yn sicrhau bod disgyblion yn darllen o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y rhyngrwyd, ac yn cynnal ymchwil yn annibynnol?

- A yw staff yn trafod a datblygu syniadau ar lafar gyda disgyblion cyn gofyn iddynt ysgrifennu?

- A yw staff yn addysgu disgyblion yn uniongyrchol am gonfensiynau'r mathau o ysgrifennu a ddefnyddir yn eu pynciau?

- A yw staff yn helpu disgyblion i ddatblygu eu syniadau drwy ddefnyddio 'fframiau ysgrifennu' neu 'sgaffaldau' yn ddeallus sy'n helpu disgyblion i strwythuro ac ymestyn eu hysgrifennu ac a ydynt yn lleihau'r cymorth hwn pan fydd disgyblion yn gallu bod yn annibynnol?

- A yw staff yn helpu disgyblion i ysgrifennu'n gywir drwy roi sylw i sillafu, atalnodi, geirfa, strwythur brawddegau a mynegi syniadau sy'n berthnasol i ysgrifennu yn eu pynciau?

## Addysgu Cymraeg a Saesneg

- A oes gan staff arbenigedd a gwybodaeth bwnc gadarn ac a ydynt yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu a sicrhau eu medrau mewn Cymraeg a Saesneg?
- A yw staff yn cysylltu gweithgareddau llafar, darllen ac ysgrifennu mewn gwersi fel bod disgyblion yn dysgu bod y dulliau hyn yn rhyngddibynnol?
- A yw staff yn addysgu medrau'n benodol drwy arddangos ac egluro fel bod disgyblion yn gallu cymhwyso'r hyn a ddysgwyd ganddynt eu hunain?
- A yw gweithgareddau a thasgau'n cael eu cydweddu'n dda ag anghenion a galluoedd disgyblion?
- A yw staff yn defnyddio ymagweddau fel chwarae rôl neu 'yn y gadair goch' i ennyn diddordeb disgyblion a'u galluogi i ddeall y materion y maent yn eu hastudio yn well?
- A yw staff a chynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio'n agos â'i gilydd i gefnogi anghenion dysgu disgyblion, fel cynllunio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth asesu?
- A yw staff yn tynnu ar strategaethau 'dysgu i ddysgu' ac yn datblygu medrau meddwl er mwyn i ddisgyblion ddod yn ddysgwyr annibynnol?
- A yw staff yn cyfleu brwdfrydedd at iaith fel bod disgyblion yn mwynhau darllen a mynegi eu hunain yn dda?

## Addysgu darllen

- A yw staff yng nghyfnod allweddol 2 yn parhau i ganolbwyntio ar ffoneg, yn benodol mewn Saesneg, i helpu disgyblion i sicrhau eu gwybodaeth am iaith a defnyddio'r wybodaeth hon i ddadgodio?
- A yw staff yn defnyddio ymagweddau'n effeithiol, fel rhannu darllen, darllen mewn grŵp a darllen wedi'i arwain, sy'n gwella medrau darllen a deall disgyblion?
- A yw staff yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu sut i ddarllen mewn gwahanol ffyrdd at wahanol ddibenion, er enghraifft, lleoli gwybodaeth, deall rhagfarn, deall cymhellion cymeriadau?
- A yw deunyddiau addysgu'n cael eu hamrywio, fel nad ydynt yn seiliedig yn unig ar brint ond hefyd yn cynnwys amrywiaeth o gyfryngau, fel fideos a chylchgronau, sy'n helpu i gymell disgyblion, yn enwedig bechgyn?

- A yw staff yn helpu disgyblion i fod yn ddarllenwyr craffach gan eu bod yn gofyn bod disgyblion yn gwneud penderfyniadau am gywirdeb ac ansawdd y wybodaeth a'r barnau y maent yn eu darllen?

- A yw staff yn rhoi testunau o safon i ddisgyblion eu darllen gan eu bod yn gwybod bod ansawdd ysgrifennu disgyblion fel arfer yn uniongyrchol gysylltiedig ag ansawdd yr hyn y maent yn ei ddarllen a'i glywed?

- A yw staff yn annog disgyblion i ddarllen yn eang er pleser, ymgolli mewn straeon, mynd i mewn i fydoedd ffug a datblygu arferion darllen hamdden sy'n hanfodol ar gyfer bywyd llawn?

- A yw staff yn defnyddio mentrau cenedlaethol a lleol yn dda, fel 'Cysgodi Medal Carnegie' a 'Darllen Miliwn o Eiriau' Sgiliau Sylfaenol Cymru i gymell disgyblion i ddarllen?

**Addysgu ysgrifennu**

- A gaiff ysgrifennu ei addysgu fel proses o gyfansoddi sy'n cynnwys creu, diwygio, golygu a rhannu drafftiau gydag eraill?

- A yw gwaith llafar yn dod o flaen ysgrifennu ac a oes holi a thrafod da sy'n ysgogi disgyblion i feddwl am eu syniadau eu hunain?

- A yw disgyblion a staff yn cydweithio ar ddarn o ysgrifennu 'a rennir' i fodelu'r broses ysgrifennu fel bod disgyblion yn deall sut mae ysgrifennu'n cynnwys gwahanol agweddau ar gyfansoddi?

- A yw disgyblion yn ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd real, er enghraifft, erthyglau i gylchgronau, adolygiadau i'r clwb llyfrau ac ysgrifennu dychmygus, fel straeon, cerddi a sgriptiau drama, sy'n cael eu rhannu gydag eraill?

- A yw disgyblion yn dysgu nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu, y rhesymau am y gwahanol fathau o destun a gwahanol dechnegau, fel cyflythrennu, delweddaeth a rhythm y mae ysgrifenwyr yn eu defnyddio i greu effaith benodol?

- A yw staff yn darparu symbyliadau cyfoethog a phwerus i ysgrifennu, fel nofel neu stori fer, ffilm, drama neu farddoniaeth neu symbyliad anllenyddol fel pamffled, erthygl mewn papur newydd neu o deledu neu ffilm?

- A yw staff yn rhoi sylw penodol i strwythur, trefn geiriau (cystrawen) a geirfa a sut y mae ysgrifenwyr yn defnyddio technegau amrywiol i greu effaith?

- A yw disgyblion yn cael cyfleoedd i weithio gydag ysgrifenwyr proffesiynol fel newyddiadurwyr, storïwyr a beirdd?

- A oes arweiniad clir i ddisgyblion i'w helpu gyda sillafu, atalnodi a gramadeg ac a yw staff yn rhoi sylw i'r agweddau hyn ar ysgrifennu mewn ffordd gyson?

- A yw disgyblion yn defnyddio TGCh ar gyfer cyfansoddi testun, gwahanol fathau o gyflwyniad ac i olygu eu gwaith?

- A yw staff yn gosod darn estynedig o ysgrifennu yn rheolaidd sy'n cael ei ddarllen a'i farcio ganddynt yn unol â'r amcanion dysgu?

**Asesu Cymraeg a Saesneg**

- A yw disgyblion yn gwybod amcanion gweithgareddau a thasgau a'r hyn y maent yn dysgu i'w gyflawni?

- A yw staff yn sicrhau bod meini prawf asesu – 'meini prawf llwyddo' – yn rhan annatod o gynllunio, addysgu, dysgu, adborth a marcio fel bod disgyblion yn gwybod beth maen nhw'n ei ddysgu a pha mor dda maen nhw'n ei wneud?

- A yw marcio'n gysylltiedig â meini prawf asesu fel ei fod yn llawn ffocws ac yn adeiladol yn hytrach nag amlygu pob gwall, sy'n gallu digalonni disgyblion?

- A yw staff yn rhoi arweiniad ac adborth i ddisgyblion unigol yn ystod gwersi pan fydd eu hangen arnynt?

- A yw staff yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig sy'n cyfeirio'n benodol at yr hyn y mae disgyblion wedi'i gyflawni a pha agweddau ar waith y mae angen iddynt eu gwella?

- A yw'r marcio'n rhoi model i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eraill a gwneud gwelliannau ar eu pennau eu hunain?

- A yw staff a disgyblion yn olrhain cynnydd ac yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn y tymor byr a'r tymor hwy?

- A yw staff yn defnyddio'r nodweddion dilyniant o ddisgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol i gymell disgyblion a'u helpu i ddeall beth mae angen iddynt ddysgu ei wneud nesaf?

- A yw'r holl staff yn defnyddio polisi marcio ysgol gyfan yn gyson?

**Asesu darllen**

- A yw staff yn archwilio ac yn cwestiynu ymatebion disgyblion i'r hyn y maent yn ei ddarllen er mwyn cael gwell syniad o ddealltwriaeth disgyblion?

- A yw staff yn asesu cynnydd darllen disgyblion o ran rhuglder, dealltwriaeth ac amrediad?

- Wrth wrando ar ddisgyblion yn darllen, a yw staff yn nodi nodweddion arwyddocaol perfformiad disgyblion, fel geiriau a strwythurau brawddeg sy'n peri anhawster iddynt, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu disgyblion i wneud cynnydd?

- A yw staff yn monitro amrediad darllen annibynnol disgyblion, er enghraifft, drwy archwilio dyddlyfrau darllen disgyblion yn rheolaidd, ac a ydynt yn rhoi adborth ac arweiniad i ddisgyblion i'w helpu i ddatblygu ac estyn eu hoffterau a'u diddordebau darllen?

**Asesu ysgrifennu**

- A yw staff yn marcio gwaith ysgrifenedig yn ofalus ac a oes ganddynt ffocws clir, fel cynnwys y gwaith neu fedrau ysgrifennu penodol?

- A yw marcio'n gysylltiedig ag amcanion y mae disgyblion yn eu deall?

- A oes polisi marcio ar gyfer ysgrifennu y mae'r holl staff a'r disgyblion yn ei ddeall a'i ddefnyddio'n gyson?

- A yw staff yn gwneud sylwadau am waith disgyblion sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac sy'n rhoi arweiniad pan fydd gwallau penodol?

- A yw cynnydd disgyblion yn cael ei fonitro'n barhaus gan ddefnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o waith ysgrifenedig ac a yw'r wybodaeth hon yn llywio gwaith cynllunio ar gyfer y cam nesaf?

**Defnyddio asesu cyfoeodion a hunanasesu**

- A yw staff yn helpu disgyblion i ddadansoddi a bod yn feirniadol am y cryfderau a'r gwendidau yn eu gwaith eu hunain a gwaith eraill?

- A yw disgyblion yn cael 'meini prawf llwyddo' clir i asesu eu gwaith eu hunain neu waith eraill er mwyn iddynt ddysgu sut i ganolbwyntio ar yr hyn maen nhw'n ei ddysgu, yr hyn y gallant ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella?

- A yw disgyblion yn penderfynu ar eu cyflawniad o'r wybodaeth a roddir ac yn pennu eu hunain yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i gyfnerthu neu estyn eu dysgu ymhellach?

- A oes canllawiau clir ar gyfer marcio cyfoedion gan ddisgyblion ac a yw staff yn pwysleisio bod cywirdeb yn bwysig iawn gydag ymagwedd gyffredin at astudio a chywiro gwallau sillafu, atalnodi a pharagraffu?

- A oes 'pecynnau cymorth' effeithiol i helpu disgyblion i edrych yn fanwl ar y technegau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o waith ysgrifenedig ac a yw'r rhain yn eu helpu i asesu pa mor dda y maen nhw ac eraill wedi gwneud?

- A yw matricsau marcio ar gyfer darllen ac ysgrifennu'n dangos nodweddion dilyniant fel bod disgyblion yn gallu asesu ymhle y maen nhw ar gontinwwm datblygiad?

**Mynd i'r afael â thangyflawniad bechgyn**

- A oes ffocws clir ar **ba fechgyn** sy'n tangyflawni?

- A yw gwersi'n cael eu cynllunio'n dda â nodau cyraeddadwy clir sy'n cael eu rhannu gyda disgyblion ac a yw disgyblion yn cael amrywiaeth o weithgareddau symbylol?

- A yw gwaith llafar yn dod o flaen darllen ac ysgrifennu er mwyn iddo helpu i ymarfer tasgau a pharatoi pob disgybl yn well ar eu cyfer?

- A yw staff yn defnyddio ymagweddau fel chwarae rôl, drama a gwaith grŵp cydweithredol i gynorthwyo dysgu disgyblion?

- A yw pob disgybl yn cael ei helpu i fagu hyder yn ei waith llythrennedd ac a ddangosir i bob disgybl sut i fod yn llwyddiannus, sy'n benodol bwysig i fechgyn gan fod angen iddynt weld eu hunain fel ysgrifenwyr?

- A gaiff deunyddiau eu dewis yn ofalus, gan gynnwys testunau ffuglen a ffaith, y cyfryngau a delweddau symud sy'n apelio at fechgyn a merched?

- A yw staff yn defnyddio strategaethau, fel mentora cyfoedion a rhaglenni darllen mewn pâr sy'n helpu pob disgybl i wneud cynnydd?

- A yw staff yn defnyddio adnoddau, fel fframiau a thempledi ysgrifennu'n effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion?

- A yw gwaith disgyblion yn cael ei fonitro'n agos gyda chymorth penodol i ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt i drefnu eu gwaith?

- A yw'r holl ddisgyblion yn cael adborth manwl gan staff am eu gwaith, sy'n cymell bechgyn yn benodol?

- A yw tasgau ysgrifennu'n cael eu strwythuro'n glir ac yn bwrpasol, ac a yw pob cyfnod yn cael ei egluro i ddisgyblion er mwyn iddynt wybod beth mae'n rhaid iddynt ei wneud?

- A oes pwyslais craff ar ddisgyblion yn gwirio eu gwaith eu hunain am gywirdeb a gwell mynegiant, gan gydweddu eu cyflawniadau â meini prawf clir?

- A yw disgyblion yn ysgrifennu i gynulleidfaoedd real sy'n hyrwyddo balchder mewn sillafu a chyflwyniad?

- A gaiff technoleg ei defnyddio i gymell a galluogi cyfathrebu, darllen ac ymchwil?

- A yw'r trefniadau eistedd a grwpio mewn gwersi yn amrywiol ac yn cael eu trefnu yn ôl gwahanol feini prawf, fel bod yr agweddau hyn yn rhoi'r buddion mwyaf posibl i ddysgu bechgyn a merched?

- A yw staff yn herio canfyddiadau am ystrydebau rhyw ynghylch darllen ac ysgrifennu?

**Bodloni anghenion disgyblion llai galluog**

- A gaiff disgyblion sy’n cael anawsterau gyda darllen ac ysgrifennu eu hadnabod ar y cyfle cyntaf?

- A ydynt yn cael cymorth ychwanegol effeithiol yn unol â’u hanghenion mewn darllen ac ysgrifennu?

- A ydynt yn cael digon o gymorth i’w gwneud yn ysgrifenwyr bodlon a chymwys?

**Bodloni anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog**

- A yw disgyblion mwy galluog a thalentog yn cael eu hymestyn i weithio hyd eithaf eu gallu?

- Pa drefniadau sydd ar waith i’w hannog i ddarllen yn eang ac uchelgeisiol?

- Pa fath o dasgau ysgrifennu a osodir sy’n mynnu ymchwil a medrau uwch mewn ysgrifennu ffuglen wreiddiol, amleiriog, darbwyllol a dadleuol?

**Darparu ar gyfer disgyblion â Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY)**

- A yw anghenion iaith disgyblion yn cael eu hasesu ar unwaith pan maent yn cyrraedd yr ysgol?

- A yw disgyblion yn cael addysgu a chymorth arbenigol mewn dosbarthiadau prif ffrwd i fodloni eu hanghenion a, phan fo’n briodol, mewn parau a grwpiau mewn gwersi iaith ar wahân?

- A oes ffocws clir ar ddefnyddio siarad a datblygu syniadau ar lafar mewn ymateb i’r hyn y mae disgyblion yn ei ddarllen?

- A oes pwyslais ar helpu disgyblion i siarad a threfnu eu meddwl cyn ysgrifennu?

- A yw staff yn monitro cynnydd disgyblion yn agos mewn datblygu medrau iaith, yn benodol rhuglder, cywirdeb a hyder?

- A yw cynorthwywyr cymorth dysgu a ‘chyfeillion’ cyfoedion yn rhoi cymorth unigol ychwanegol i unigolion a grwpiau mewn darllen ac ysgrifennu?

- A yw’r holl staff yn gwybod cyfnod caffael iaith pob disgybl a’r math o waith sydd ei angen i ddatblygu medrau iaith pob disgybl ymhellach?

**Defnyddio llyfrgell yr ysgol**

- A yw'r llyfrgell yn ganolog i ymdrech yr ysgol i feithrin darllen er pleser ac er dysgu?
- A yw'r llyfrgell yn addysgol gynhwysol o ran hyrwyddo a chyflawni defnydd gan bob grŵp o ddisgyblion?
- A yw'r holl staff yn helpu i wneud y mwyaf o ddysgu disgyblion drwy ddefnyddio'r llyfrgell, sy'n gallu ymestyn y gwaith a wna disgyblion yn y dosbarth?
- A yw'r llyfrgell yn cael ei chynnwys yn rheolaidd ac yn llwyddiannus i gefnogi a hyrwyddo mentrau ysgol, fel clybiau gwaith cartref, cylchoedd darllen a grwpiau ysgrifenwyr ifanc?
- A yw'r llyfrgell yn darparu ystod ddigon eang o lyfrau a ffynonellau gwybodaeth heblaw llyfrau ar wahanol lefelau i fodloni anghenion a diddordebau pob disgybl?
- A oes gan y llyfrgell ystafelloedd sy'n ddeniadol ac yn hygyrch i ddisgyblion y tu mewn a'r tu allan i oriau ysgol?
- A yw'r llyfrgell yn gysylltiedig â gwasanaethau llyfrgell lleol neu'n cael ei defnyddio gan y gymuned ehangach er mwyn iddi gyfrannu at ddysgu gydol oes?

**Trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd**

- A yw staff ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yn cynllunio cynlluniau gwaith cyffredin mewn Cymraeg a Saesneg i ddisgyblion 7-14 oed?
- A oes parhad ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3 o ran defnyddio'r dulliau addysgu a'r ffurfiau ar drefnu ystafelloedd dosbarth sy'n fwyaf effeithiol i ddysgu?
- A oes unedau gwaith pontio sy'n cysylltu gwaith a wnaed ym mlynyddoedd 6 a 7, y mae staff yn eu cynllunio a'u hasesu gyda'i gilydd?
- A yw staff o ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu gwybodaeth am gyflawniadau blaenorol ac anghenion dysgu disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu er mwyn addysgu ar y lefel gywir a sicrhau bod gwaith yn heriol?
- A yw staff mewn ysgolion uwchradd yn gwybod pa destunau y mae disgyblion wedi'u darllen o'r blaen, yn y dosbarth ac ar eu pennau eu hunain, er mwyn cynllunio darllen mwyfwy heriol yn gam nesaf?
- A yw gwybodaeth staff am alluoedd ysgrifennu disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol o waith disgyblion, i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd pellach pan fyddant yn newid ysgolion?

- A yw staff ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yn asesu ac yn safoni gwaith disgyblion Blwyddyn 6 gyda'i gilydd ac yn defnyddio portffolios gwaith y maent wedi'u llunio i gytuno lefelau cyflawniad mewn darllen ac ysgrifennu?

**Arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol**

- A yw'r pennaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â hybu safonau mewn llythrennedd i roi statws i'r gwaith drwy'r ysgol gyfan a sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth i'r ysgol gyfan?

- A oes gan yr ysgol strategaeth lythrennedd ysgol gyfan ac uwch reolwr sy'n gyfrifol am lythrennedd drwy'r ysgol gyfan?

- A yw arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad disgyblion, y cânt eu mynegi fel targedau heriol i'r unigolyn, y dosbarth a'r ysgol gyfan?

- A yw datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn rhan reolaidd o'r cynllun gwella ysgol ac a yw rheolwyr yn cynnal trosolwg gwybodus o waith llythrennedd?

- A oes gan uwch reolwyr raglen a gynlluniwyd yn dda i adolygu ac arfarnu effaith mentrau llythrennedd ac a ydynt yn defnyddio'r canfyddiadau i gynllunio ar gyfer gwelliant pellach?

- A yw staff â chyfrifoldebau arweinyddiaeth yn cael amser wedi'i neilltuo i gynllunio gyda phob aelod o staff, yn rhoi cymorth, yn monitro ac adolygu ac adrodd i'r uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr?

- A yw'r ysgol yn targedu mentrau ar gyfer gwella at yr agweddau gwannach ar lythrennedd ac at grwpiau o ddisgyblion sy'n gwneud y cynnydd lleiaf wrth ddatblygu eu medrau darllen neu ysgrifennu?

- A yw'r ysgol yn defnyddio rhaglenni Rhagori a Sgiliau Sylfaenol Cymru yn dda i wella safonau darllen ac ysgrifennu?

- A yw uwch reolwyr yn adolygu a samplu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn adrodd canfyddiadau i'r holl staff?

- A oes gan yr holl staff allweddol wybodaeth gadarn am ddysgu ac addysgu llythrennedd?

- A yw staff yn cael hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol i addysgu darllen ac ysgrifennu ac a ydynt yn cymryd rhan mewn mentrau llythrennedd?

- A yw'r ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau ymyrryd sydd â phrofiad sicr fel bod modd helpu disgyblion i ddal i fyny â'u cyfoedion?

- A gaiff staff cymorth eu lleoli'n dda er mwyn iddynt wneud cyfraniad llawn at gefnogi disgyblion?

- A oes cysylltiadau cryf rhwng ysgolion babanod ac iau a rhwng ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner fel bod cyfnod trosglwyddo disgyblion yn ddi-dor?

- A oes monitro aml ac arfarnu trwyadl i sicrhau bod dysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallant fod?

**Gwaith awdurdodau lleol**

- A oes gan yr awdurdod strategaeth lythrennedd ddatblygedig, awdurdod cyfan i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion sy'n cynnwys, yn benodol, y camau y bydd yr AALl a'r ysgolion yn eu cymryd i wella addysgu a safonau darllen ac ysgrifennu?

- A oes cynllun gweithredu clir i wella darllen ac ysgrifennu sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth dda o dueddiadau a pherfformiad mewn ysgolion unigol?

- A oes adnoddau o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft, o'r awdurdod, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Sgiliau Sylfaenol Cymru, yn cael eu cydweddu'n ofalus i wella darllen ac ysgrifennu lle bo angen gwella safonau fwyaf?

- A yw'r awdurdod yn darparu ystod dda o arweiniad a deunyddiau enghreifftiol i addysgu ac asesu darllen ac ysgrifennu?

- A oes arbenigwyr ar gael i ysgolion sy'n darparu hyfforddiant a chymorth i'w helpu i wella addysgu darllen ac ysgrifennu?


- A oes cymorth ar gyfer asesu a safoni ar ddarllen ac ysgrifennu fel bod staff yn asesu'n gyson, yn benodol ar draws blynyddoedd 6 a 7?

- A yw'r awdurdod yn monitro'n aml ac yn arfarnu'n drwyadl i sicrhau bod dysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu cystal ag y gallant fod?

## Atodiad 3:  Safonau cyflawniad mewn Cymraeg a Saesneg


Mae Tablau 1 a 2 isod yn dangos canran y disgyblion a gyflawnodd y lefelau disgwyliedig mewn Cymraeg a Saesneg rhwng 2000 a 2007.

**Tabl 1**




* Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer cyfnod allweddol 1 yw lefel 2, a lefel 4 ar gyfer cyfnod allweddol 2 a lefel 5 ar gyfer cyfnod allweddol 3


**Tabl 2**





* Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer cyfnod allweddol 1 yw lefel 2, a lefel 4 ar gyfer cyfnod allweddol 2 a lefel 5 ar gyfer cyfnod allweddol 3.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae canlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn dangos bod disgyblion yn cyflawni safonau uwch mewn llefaredd na darllen ac ysgrifennu. Mae Tablau 3 a 4 isod yn dangos nad yw disgyblion yn cyflawni cystal mewn ysgrifennu ag y maent mewn darllen na chystal mewn darllen nag y maent mewn llefaredd.  Mae safonau ysgrifennu tua 10 pwynt canran islaw safonau llefaredd a hyd at bedwar pwynt canran islaw safonau darllen mewn Cymraeg a Saesneg.

**Tabl 3**




**Tabl 4**





Yng nghyfnod allweddol 2, mae safon cyflawniad darllen disgyblion yn debyg iawn i safonau llefaredd mewn Cymraeg a Saesneg. Dangosir y wybodaeth hon yn nhablau 5 a 6 isod. Er bod disgyblion yn aeddfetach o ran datblygu eu medrau ysgrifennu yn ystod y cyfnod allweddol hwn, mae'r gwahaniaeth rhwng safonau darllen ac ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg ar gynnydd. Mae safonau ysgrifennu disgyblion tua deng pwynt canran yn is mewn Cymraeg a phum pwynt canran yn is mewn Saesneg nag y maent ar gyfer darllen.

**Tabl 5**



**Tabl 6**





Nid yw’n bosibl dangos y safonau y mae bechgyn a merched yn eu cyflawni mewn llefaredd, darllen ac ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 3, gan fod data’n cael ei gyhoeddi ar lefel bwnc ac nid yn ôl targed cyrhaeddiad.

## Perfformiad bechgyn a merched

Dengys Tablau 7 ac 8 isod y safonau y mae bechgyn a merched yn eu cyflawni yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 o 2000 i 2007. Nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched o hyd ym mron pob pwnc mewn arholiadau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU) yng nghyfnod allweddol 4.


**Tabl 7**




[horizontal axis - **Safonau mewn Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 ar gyfer bechgyn a merched**
Vertical axis - **Canran y disgyblion sy'n cyflawni gradd darged**
B – **B**; G – **M**; KS – **CA**]

* Y radd darged ar gyfer cyfnod allweddol 1 yw lefel 2, lefel 4 ar gyfer cyfnod allweddol 2 a lefel 5 ar gyfer cyfnod allweddol 3**.**

**Tabl 8**




[horizontal axis - **Safonau mewn Saesneg yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 ar gyfer bechgyn a merched**
Vertical axis - **Canran y disgyblion sy'n cyflawni gradd darged**
B – **B**; G – **M**; KS – **CA**]

* Y radd darged ar gyfer cyfnod allweddol 1 yw lefel 2, lefel 4 ar gyfer cyfnod allweddol 2 a lefel 5 ar gyfer cyfnod allweddol 3.